

# **Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Fynwy**

**Hunan-Asesiad o'r Strategaeth a  
Ffefrir yn erbyn y Profion o Gadernid  
Mehfin 2021**



**monmouthshire**  
sir fynwy





**Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig  
Cyngor Sir Fynwy**

# **Hunan-Asesiad o'r Strategaeth a Ffefrir yn erbyn y Profion o Gadernid**

## **Mehefin 2021**

**Gwasanaeth Polisi Cynllunio**

**Cyngor Sir Fynwy**

Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 1GA

**Ffôn:** 01633 644429

**E-bost:** [planningpolicy@monmouthshire.gov.uk](mailto:planningpolicy@monmouthshire.gov.uk)

## Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
1. Pwrpas y Papur hwn	1
2. Hunan-asesiad o'r Strategaeth a Ffefrir yn erbyn y Profion o Gadernid	2
<b>Atodiad 1</b> – Strategaeth a Ffefrir CDLID Sir Fynwy – Asesiad o'r Gydfymffurfiaeth Gyffredinol gyda 'Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040'	16

## 1. Pwrpas y Papur hwn

- 1.1 Mae'r Papur Cefndir hwn wedi ei gyhoeddi ar y cyd gyda Strategaeth a Ffeirir y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLID)<sup>1</sup>. Fel rhan o broses y Cynllun Datblygu, mae angen i'r Cyngor ddangos bod y Cynllun yn 'gadarn'. Pwrpas y papur hwn yw asesu'r Strategaeth a Ffeirir yn erbyn y profion o gadernid sydd wedi eu hamlinellu yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3 – Mawrth 2020).
- 1.2 Cynhaliwyd yr hunanasesiad er mwyn dangos bod y Strategaeth a Ffeirir a'r camau sydd wedi eu cymryd a'r prosesau sydd wedi eu dilyn er mwyn cyrraedd y pwynt hwn oll yn 'gadarn'.
- 1.3 Bydd cadernid y CDLID yn parhau i gael ei asesu wrth i'r Cynllun ddatblygu a bydd yn cael ei archwilio fel rhan o Archwiliad Annibynnol gan Arolygydd Cynllunio yn y pendraw.
- 1.4 Mae hunanasesiad o'r Strategaeth a Ffeirir wedi ei amlinellu isod.
- 1.5 Mae un o'r profion cadernid yn ymwneud gyda chydymffurfiaeth gyffredinol y Cynllun gyda 'Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040' (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2021). Mae asesiad o'r Strategaeth a Ffeirir yn erbyn y polisiau yn 'Cymru'r Dyfodol' wedi ei gynnal ac wedi ei atodi yn Atodiad 1.

---

<sup>1</sup> <https://www.monmouthshire.gov.uk/planning-policy/local-development-plan-revision/?preview=true>

## 2. Hunanasesiad o'r Strategaeth a Ffefrir yn erbyn y Profion o Gadernid

<p><b>Llawlyfr Cynlluniau Datblygu – Rhifyn 3, Mawrth 2020</b></p>	<p><b>Ymateb</b> <b>Mae'r hunanasesiad wedi ei gynnal er mwyn monitro cysondeb gyda'r Profion o Gadernid yn ystod y cam Strategaeth a Ffefrir o'r broses Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig. Mae hefyd wedi helpu adnabod gofynion y dyfodol wrth i ni weithio at baratoi'r Cynllun Wedi'i Adneuo.</b></p>
<p><b>Gofynion Paratoi:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• A yw'r gwaith o baratoi'r cynllun wedi cydymffurfio â gofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoleiddiol? (Rheoliadau CDLLau, Cynllun Cynnwys Cymunedau, Rheoliadau AAS, Arfarniad o Gynaliadwyedd, HRA ac ati?)</li> <li>• A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC a/neu'r Cynllun Datblygu Strategol? (pan gaiff ei gyhoeddi neu ei fabwysiadu yn y drefn honno)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi ei pharatoi yn unol gyda'r gofynion gweithdrefnol. Mae cyfeiriad penodol wedi ei wneud i gyhoeddiad y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) (Mehefin 2021) a'r Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) (Mehefin 2021) sydd wedi eu cyhoeddi fel dogfennau cefnogol i'r Strategaeth a Ffefrir. Mae'r rhain yn adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud er mwyn cefnogi camau blaenorol y broses sydd yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLID) - Adroddiad Cwmpasu Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig (Rhagfyr 2018) a'r Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Rhagfyr 2018).</li> <li>▪ Mae'r trefniadau a'r dogfennau ymgynghori sydd wedi eu trefnu yn gyson gyda Rheoliadau'r CDLI (2005 fel y'i diwygir yn 2015). Mae ystod a dull yr ymgynghoriad yn cael ei ystyried yn gyson gyda'r Cynllun Cynnwys Cymunedau sydd wedi eu diwygio er mwyn adlewyrchu ein trefniadau diwygiedig ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu yn sgil y pandemig COVID-19. Mae'r modd y byddwn yn cynnal y digwyddiadau ymgysylltu gyda'r cyhoedd yn cael ei adolygu yn unol gyda'r Rheoliadau Coronafeirws (2020) a Chyngor Gweinidogol<sup>2</sup> er mwyn sicrhau bod yna fesurau pellter cymdeithasol ac addasiadau eraill yn cael eu gwneud pan yn cynnal digwyddiadau cyhoeddus fel bod ein cydweithwyr a'n cymunedau yn ddiogel. Mae'r Cyngor hefyd wedi adolygu'r opsiynau ar gyfer eu cynnwys yn ddigidol fel bod cymunedau a budd-ddeiliaid yn derbyn y wybodaeth sydd angen a'r gallu i ymgysylltu gydag ymgynghoriad y CDLID mewn modd rhithwir drwy gynnal dwy weminar.</li> <li>▪ Mae modd edrych ar fanylion y trefniadau ymgynghori a'r ddogfennaeth mewn nifer o lefydd gan gynnwys Adroddiad y Cyngor, e-bost a llythyr yr ymgynghoriad a gwefan y Cyngor. Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud hefyd fel rhan o ymgynghoriad na sy'n statudol ac wedi ei gynnal er mwyn deall y materion a'r opsiynau sydd yn berthnasol i'r Sir, gyda rhai camau yn cael eu cynnal eto er mwyn diweddarau'r dystiolaeth a'u hadolygu yn sgil Covid-19. Mae hyn yn cynnwys:</li> </ul>

<sup>2</sup> Llythyr y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol a Phrif Weithredwyr y Parciau Cenedlaethol – Y System Gynllunio a Covid-19, 7fed Gorffennaf 2020

- Ymgynghoriad ar y Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion (fe'i diweddarwyd ym Mehefin 2021) yn dilyn adolygiad o'u perthnasedd yn sgil Covid-19 ym Mehefin 2020 a'u hymgorffori i mewn i'r Adolygiad o Faterion, Gweledigaeth a Sylfaen Dystiolaeth CDLID yn sgil Covid-19 a baratowyd ym Medi 2020 a'i gymeradwyo gan y Cabinet yn Hydref 2020.
  - Galwad gyntaf am safleoedd ymgeisiol (hydref 2018) a chyhoeddi'r Gofrestr ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol (Chwefror 2019) er gwybodaeth.
  - Ymgynghoriad na sydd yn statudol ar yr Opsiynau Twf a Gofodol a gynhaliwyd yng Ngorffennaf ac Awst 2019. Adolygwyd y cam yma eto rhwng Ionawr a Chwefror 2021 er mwyn ystyried amcanestyniad diweddaraf Llywodraeth Cymru am y boblogaeth ac aelwydydd a gyhoeddwyd yn Awst 2020 ac mae'n cynnwys tystiolaeth bwysig newydd sydd angen ei hystyried ac yn ffurfio'r man dechrau ar gyfer sylfaen dystiolaeth y Cynllun.
  - Roedd y Cynllun wedi cyrraedd y cam Strategaeth a Ffefrir o'r broses CDLID ym Mawrth 2020, gan ddechrau'r ymgynghoriad statudol o Strategaeth a Ffefrir y CDLID yn ystod Mawrth 2020. Ataliwyd y gwaith ar y CDLID ym Mawrth March 2020 gan fod Covid-19 yn golygu nad oedd modd i ni barhau gyda'r digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir. Yn dilyn cyngor gan y Gweinidog ar gyfer Tai a Llywodraeth Leol, gwnaed y penderfyniad i ddod â'r ymgynghoriad ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir a'r ail alwad am safleoedd ymgeisiol i ben ar 20fed Gorffennaf 2020. Yn dilyn hyn, fel sydd wedi ei nodi uchod, cyhoedd Llywodraeth Cymru amcanestyniad poblogaeth 2018 yn Awst 2020 a oedd yn cyflwyno tystiolaeth newydd, sydd yn golygu bod angen ail-ystyried y camau Opsiynau Twf a Gofodol a'r Strategaeth a Ffefrir.
- Bydd manylion llawn y dulliau ymgynghori sydd i'w cynnal yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Ymgynghoriad Cychwynnol a baratowyd er mwyn ei gyflwyno gyda'r Cynllun Wedi'i Adneuo.
  - Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol' yn Chwefror 2021. Mae hyn yn sefydlu'r fframwaith datblygu cenedlaethol, yn amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer datblygiadau yng Nghymru hyd at 2040 ac yn darparu fframweithiau polisi ar gyfer y CDS a CDLI, ac yn gofyn bod cynlluniau haen is yn gyson gyda Dyfodol Cymru. Mae'r polisi fframwaith sydd wedi ei amlinellu yn y Strategaeth a Ffefrir yn cael ei ystyried yn gyson gyda hyn ac nid yw'n atal amcanion Cymru'r Dyfodol rhag cael eu cyflawni yn ystod cyfnod y CDLID. Bydd manylion nifer o'r ffiniau sydd yn rhan o bolisiau Dyfodol Cymru yn cael gweithredu drwy baratoi'r CDS, sydd heb ddechrau eto. Mae'n cynnig cyd-destun polisi ar gyfer twf cenedlaethol a rhanbarthol, gyda'r CDLID yn darparu'r polisi fframwaith ar gyfer twf er mynd i'r afael gyda'r materion lleol

yn Sir Fynwy ac yn diwallu ein hanghenion. Mae asesiad o'r Strategaeth a Ffefrir yn erbyn polisiau Cymru' Dyfodol wedi ei gynnal a'i atodi yn Atodiad 1.

- Maes perthnasol penodol i Sir Fynwy yw'r gofynion gan Bolisi 34 o'r Cynllun Datblygu Strategol i adnabod llain las i'r gogledd o Gaerdydd, Casnewydd a rhan ddwyreiniol y rhanbarth. Mae'r Diagram Strategol Rhanbarth De Ddwyrain Cymru (tudalen 163 o 'Cymru'r Dyfodol') yn darparu cynllun dangosol o'r ardal dan ystyriaeth gyda ffiniau manwl i'w diffinio drwy baratoi'r CDS. Cyn y CDS, dylid trin yr ardal sydd yn cael ei hystyried yn 'Cymru'r Dyfodol' fel Llain Werdd ddynodedig. Wrth asesu'r strategaeth ofodol ar gyfer dosbarthu twf o fewn y Sir, dylid ystyried paragraff 3.72 o PPW11 sydd yn datgan "Wrth ystyried dynodi Llain Las, dylid sicrhau bod digon o dir datblygu mewn lleoliad addas mewn perthynas â'r ffiniau trefol presennol ar gael, gan gofio'r angen am dir datblygu yn y tymor hwy, effeithiau pwysau datblygu mewn ardaloedd y tu hwnt i'r Llain Las a'r angen i leihau'r galw i deithio. Efallai y bydd angen diogelu tir, a rhaid i ffiniau Lleiniau Glas arfaethedig fod wedi'u diffinio'n ofalus i gyflawni hyn". Yn y cyd-destun hwn, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cael ei hystyried fel modd o hwyluso'r broses o adnabod Llain Werdd yn ne Sir Fynwy gyda'r aneddiadau cynradd wedi eu lleoli y tu hwnt i hyn, yn gyson gyda'r cynllun dangosol ac yn cwrdd â gofynion Polisi 34 ond yn caniatáu lefel briodol o dwf yn Sir Fynwy er mwyn mynd i'r afael gyda'r heriau a'r materion lleol. Mae pryderon sylweddol dal gan y Cyngor fodd bynnag ynglŷn â'r Llain Werdd sydd wedi ei ddynodi fel rhywbeth parhaol gan y byddai hynny'n arwain at oblygiadau polisi hirdymor ar gyfer twf a ffyniant yn Sir Fynwy yn y dyfodol.
- Mae'r broses o baratoi'r Strategaeth a Ffefrir wedi adlewyrchu polisiau 'Cymru'r Dyfodol' gan roi ystyriaeth i natur strategol y ddogfen Strategaeth a Ffefrir. Er enghraifft, yn dilyn cyhoeddiad yr NDF drafft a'r ddogfen ddilyn, 'Cymru'r Dyfodol' ac adnabod Llain Werdd yn de/canol y Sir (a fyddai'n atal cyfleoedd datblygu yn yr ardal hon dros yr hirdymor), roedd ffocysu twf yng ngogledd y Sir yn ffurfio un o'r opsiynau gofodol a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad yn y Papur Opsiynau Twf a Gofodol (Rhagfyr 2020). At hyn, mae'r opsiynau gofodol ar gyfer Twf Gwasgaredig ac Aneddiadau Newydd gyda Thwf Cyfyngedig mewn Aneddiadau Cynradd, Aneddiadau Eilaidd a Glannau Dyfrdwy ond wedi ffurfio rhan o'r Papur Ymgynghori cychwynnol ar Opsiynau Twf a Gofodol (Mehefin 2019), wedi eu tynnu o'r CDLID yn seiliedig ar y ffaith bod swyddogion Llywodraeth Cymru sydd wedi datgan nad oes modd bwrw ymlaen gydag Anheddiad Newydd sydd y tu hwnt i'r Cynllun Datblygu Strategol neu'r prosesau CDLI cyfun. Mae'r fath newidiadau yn cael eu hystyried fel camau sydd yn dangos cysondeb gyda 'Cymru'r Dyfodol' a'r prosesau CDS.



	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn fwy cyffredinol, mae fframwaith polisi'r Strategaeth a Ffefrir yn cael ei ystyried yn gyson gydag amcanion polisi 'Cymru'r Dyfodol' gyda nifer o themâu polisi cyffredin rhyngddynt. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys creu lleoedd (Polisi 2), teithio llesol (Polisi 12), canol y dref yn gyntaf (Polisi 6) a chreu rhwydweithiau ecolegol cadarn a gwella darpariaeth seilwaith gwyrdd (Polisi 9). Yn benodol o ran cyd-destun Sir Fynwy, yw'r ffocws polisi ar gefnogi cymunedau gwledig (Polisi 4) a'r economi wledig (Polisi 5) a sicrhau tai fforddiadwy (Polisi 7), sydd yn heriau allweddol ar gyfer y Sir. Yn hyn o beth, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cael ei hystyried fel y fframwaith strategol ar gyfer cwrdd â nifer o'r amcanion polisi o 'Cymru'r Dyfodol' ar lefel leol.</li> </ul>
<p><b>Prawf 1: A yw'r cynllun yn addas? (A yw'n glir bod y CDLI yn gyson â chynlluniau eraill?)</b> <b>Cwestiynau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>A yw'n ystyried polisi cenedlaethol (PCC) a Chynllun Gofodol Cymru (FfDC pan gaiff ei gyhoeddi)?</li> <li>A yw'n ystyried y Nodau Llesiant?</li> <li>A yw'n ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?</li> <li>A yw'n ystyried y Datganiad Ardal perthnasol?</li> <li>A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC (pan gaiff ei gyhoeddi)?</li> <li>A yw'r cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Cynllun Datblygu Strategol perthnasol (pan gaiff ei fabwysiadu)?</li> <li>A yw'n gyson â chynlluniau rhanbarthol, strategaethau a rhaglenni darparwyr cyfleustodau?</li> <li>A yw'n gydnaws â chynlluniau ACLlau cyfagos?</li> <li>A yw'n ystyried y Cynllun Llesiant neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol?</li> </ul>	<p>Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi ei baratoi gan roi ystyriaeth lawn i'r cynlluniau a'r strategaethau perthnasol, tra'n cydnabod yr angen y bydd angen iddo ymateb a datblygu wrth iddo fynd rhagddo. Mae'r cynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn cael eu nodi os yn berthnasol o fewn y Strategaeth a Ffefrir ond hefyd o fewn y dogfennau cefndir ac atodol ac o fewn ystyriaethau cyfunol yr Adroddiadau ISA a'r HRA. Mae'r broses ISA yn adolygu'r polisiau, cynlluniau a'r rhaglenni perthnasol ac yn ystyried y goblygiadau o ran lefelau twf a'r opsiynau gofodol sydd i'w hystyried ac maent wedyn wedi llywio'r Strategaeth a Ffefrir a'r Polisiau Strategol cysylltiedig. Mae pob un o'r cwestiynau yn cael eu trafod:</p> <p><b>Polisi Cenedlaethol (PPW11) a 'Cymru'r Dyfodol'</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi ystyried polisiau a chanllawiau cenedlaethol fel canllaw sydd wedi ei amlinellu yn PPW11 a'r Nodiadau Cyngor Technegol cysylltiedig (TANs). Mae'r Strategaeth a Ffefrir a'r dogfennau atodol yn cyfeirio at adrannau perthnasol o'r PPW11, yn enwedig o ran y mater sydd yn cael ei drafod a gofynion polisi PPW11 sydd wedi eu hystyried a'u hymgorffori lle bo'n berthnasol yn y broses o baratoi'r Polisiau Strategol. Mae'r testun yn cynnig sylwadau pellach ar y cysylltiadau gyda'r canllaw cenedlaethol, gan gynnwys y gwaith pellach sydd i'w wneud o ran paratoi'r Cynllun Wedi'i Adneuo. Mae pob un o'r Polisiau Strategol yn cael eu cefnogi gan gyd-destun polisi sydd yn amlinellu'r cysylltiadau gyda'r fframwaith polisi ehangach gan gynnwys PPW11 a TAN ac wedi eu gosod fesul grŵp gan themâu polisi cyffredinol PPW11. Mae'r berthynas rhwng y Strategaeth a Ffefrir a 'Cymru'r Dyfodol' wedi ei drafod uchod. Mae cyfeiriad wedi ei wneud hefyd at Adeiladu Llefydd Gwell gan Lywodraeth Cymru (Gorffennaf 2020) sydd yn amlinellu ei hymateb i bandemig Covid-19. Mae'r CDLI a'r Strategaeth a Ffefrir yn cael eu hystyried fel mecanweithiau allweddol ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau o ran polisiau cynllunio sydd wedi eu nodi yn y ddogfen Adeiladu Llefydd Gwell er mwyn cynorthwyo gyda'r adferiad o Covid-19 ynghyd â chynnal y gwelliannau sydd wedi dod o'r sefyllfa.</li> </ul>

<ul style="list-style-type: none"><li>• A yw'r ACLI wedi dangos ei fod wedi manteisio ar bob cyfle i gydweithio a chydweithredu ar baratoi cynlluniau a'r sail dystiolaeth?</li></ul>	<p><b>Amcanion Llesiant</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>▪ Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi rhoi ystyriaeth lawn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r amcanion llesiant, ynghyd â'r pum ffordd o weithio sydd wedi eu hadlewyrchu yn yr ymgynghoriad a'r ymgysylltiad, na sy'n statudol, a gynhaliwyd ar y Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion (wedi ei ddiweddarau ym Mehefin 2021) a'r Papur Opsiynau Twf a Gofodol (Rhagfyr 2020). Mae cydnabod a hyrwyddo llesiant wedi bod yn ystyriaeth ers i ni ddechrau'r broses o baratoi'r Cynllun. Mae'r cysylltiadau rhwng amcanion y CDLID a'r Amcanion Llesiant wedi eu hamlinellu yn glir ym Mhapur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion wedi ei ddiweddarau ym Mehefin 2021), sydd yn ymwneud gyda'r grwpiau a'r materion a'r cyfleoedd o dan y themâu amcanion llesiant. Mae pob Polisi Strategol yn darparu tabl sydd yn amlinellu ei gysylltiad gyda'r fframwaith polisi ehangach a pha un o'r amcanion llesiant y bydd hwn yn cyfrannu ato.</li></ul> <p><b>Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>▪ Mae'r Polisiâu Strategol yn ymdrin gyda nifer o faterion a meysydd polisi sydd ychwanegu at amcanion y Cynllun Marine. Yn benodol, Polisiâu Strategol S3 – Creu Lleoedd Cynaliadwy a Dylunio Safon Uchel, S4 – Newid Hinsawdd a S18 – Seilwaith Gwyrdd, Tirwedd a Chadwraeth Natur sydd yn ychwanegu at y Cynllun Morol drwy sicrhau bod datblygiadau yn cadw i ffwrdd o ardaloedd sydd mewn peryg o lifogydd, diogelu a gwella seilwaith gwyrdd a rhwydweithiau ac yn cydnabod yr heriau sydd yn cael eu cydnabod gan newid hinsawdd. Mae'r berthynas gyda'r Cynllun Morol yn cael ei wella drwy baratoi polisiâu manwl yn y Cynllun Wedi'i Adneuo.</li></ul> <p><b>Datganiad Ardal</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>▪ Mae Sir Fynwy yn ffurfio rhan o Ddatganiad Ardal De Ddwyrain Cymru gyda Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Thorfaen, a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mawrth 2020. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ystyried themâu strategol y Datganiad Ardal o Gysylltu Ein Tirwedd; Climate Ready Gwent; Healthy Active Connected; a Ffyrdd o Weithio, a thrwy'r Polisiâu Strategol, rydym yn ceisio cyflawni digon o'r amcanion sydd yn gysylltiedig gyda phob un thema. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys Polisi Strategol S18 - Seilwaith Gwyrdd, Tirwedd a Chadwraeth Natur sydd yn gyson gyda nifer o'r canlyniadau a ddeisyfir o'r Datganiad Ardal gan gynnwys cadernid ac ecosystemau gwell ar draws Gwent a'r angen i ddiogelu a gwella ein rhwydweithiau cynefinoedd craidd a chefnogi cysylltiadau ecolegol ar neu rhwng ein safleoedd gorau ar draws Gwent. Yn debyg i hyn, mae Polisiâu Strategol S3 - Creu Lleoedd Cynaliadwy a Dylunio Safon Uchel a S4 - Newid Hinsawdd yn gyson yn eu hamcanion gan fod nifer o'r amcanion yn</li></ul>
---	--

gysylltiedig gyda Climate Ready Gwent a Healthy Active Connected. Ar y cyfan, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cael ei hystyried yn gyson gyda thermau ac amcanion allweddol Datganiad Ardal De Ddwyrain Cymru.

**Dyfodol Cymru: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021)**

- Mae cydymffurfiaeth gyda Dyfodol Cymru yn cael ei drafod uchod ac yn Atodiad 1.

**Cynllun Datblygu Strategol (CDS)**

- Nid yw'r broses o baratoi'r CDS wedi dechrau ar gyfer y rhanbarth er bod Cyngor Sir Fynwy wedi bod yn chwarae rhan yn y trafodaethau a'r trefniadau sydd wedi eu gwneud hyd yma ac mae'r Cyngor wedi penderfynu'n swyddogol i fod yn rhan o'r CDS.

**Cynlluniau rhanbarthol strategaethau a rhaglenni cyfleustodau**

- Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi ei baratoi o fewn cyd-destun y cynlluniau rhanbarthol perthnasol, y strategaethau a'r rhaglenni darparu cyfleustodau, gydag Adran 2 o'r Strategaeth a Ffefrir, papur cefndir perthnasol a'r sylwadau atodol o'r Polisiâu Strategol, yn darparu manylion y dogfennau sydd wedi eu hystyried. Mae cyfeiriad penodol yn cael ei wneud at Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r rôl y mae Sir Fynwy yn medru cyfrannu at ei brif amcanion a rhaglenni. Mae'r Asesiad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd hefyd yn ystyried effaith cyfun y Strategaeth a Ffefrir ynghyd â'r cynlluniau a'r strategaethau eraill yn y rhanbarth, ac mae'n dod i'r casgliad bod y Strategaeth yn gyson gyda'r amcanion diogelu amgylcheddol rhanbarthol a lleol.
- Mae paratoi'r Strategaeth a Ffefrir hefyd wedi cynnwys mabwysiadu dulliau rhanbarthol a chydlynus tuag at ddatblygu'r dystiolaeth, gan gynnwys model amcanestyniad o'r boblogaeth, astudiaeth cyflogaeth rhanbarthol, ac Asesiad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd. Mae hyn wedi sicrhau dulliau cyson a chymharol o ran y fethodoleg a'r sylfeini i ystyried y dystiolaeth ac unrhyw effeithiau ar lefel fwy rhanbarthol yn ogystal â lleol. Byddwn yn parhau i fabwysiadu'r dull hwn wrth i ni baratoi'r Cynllun Wedi'i Adneuo, gyda nifer o ddarnau tystiolaeth eisoes wedi eu comisiynu ar y cyd gan gynnwys Model Datblygu Hyfywedd ac Asesiad Ynni Adnewyddadwy, gydag eraill ar fin dechrau gan gynnwys Asesiad Strategol o Sgil-Effaith Llifogydd ac Adolygiad Llain Werdd a Lletem Las. Mae dulliau gweithio rhanbarthol hirdymor mewn meysydd fel gwastraff a mwynderau yn parhau ac yn cael eu hadlewyrchu yn y Strategaeth a Ffefrir.
- Mae cwmnïau cyfleustodau wedi eu cynnwys yn gynnar yn y broses o ddatblygu'r Strategaeth a Ffefrir er mwyn sicrhau cysondeb o ran eu rhaglenni. Er enghraifft, mae trafodaethau wedi eu cynnal rhwng y Cyngor

ac Western Power a Dŵr Cymru, gyda thrafodaethau mwy manwl yn rhan o'r asesiad ar y safleoedd ymgeisiol ac wrth i ni baratoi'r Cynllun Wedi'i Adneuo.

#### **Cynlluniau Awdurdodau Cyfagos (CAC)**

- Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ystyried y materion trawsffiniol a chynlluniau'r awdurdodau cyfagos ac yn adlewyrchu'r trafodaethau a'r cytundebau sydd yn ymwneud gyda materion trawsffiniol. Mae enghreifftiau yn cynnwys cytuno ar y nifer o dai sydd wedi ei briodoli i dwf yn ardal Parc Awdurdod Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ystyriaeth o gapasiti Casnewydd i ddelio ag elfen o dwf Sir Fynwy ar dir sydd wedi ei ddatblygu yn y gorffennol, a thrafodaeth gyda Fforest Ddena o ran materion ac amcanion sydd yn effeithio arnynt hwy. Mae manylion pellach ynglŷn â gweithio ar y cyd a chydweithredu wedi eu hamlinellu ym mharagraffau 2.46 - 2.48 o'r Strategaeth a Ffefrir.
- Fel sydd wedi ei nodi uchod, ac er mwyn cydnabod y gwerth o weithio gydag awdurdodau cymdogol ac mewn ymateb i PPW11 a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn3, Mawrth 2020) a'r pwyslais o gydlafurio, rydym wedi gweithio neu yn gweithio ar nifer o ddarnau o dystiolaeth gyda'n gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys: Astudiaeth Mwy Na Chefnogaeth Leol; Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd, Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Model Hyfywedd Datblygu ac Asesiad o Ynni Adnewyddadwy. Mae natur y cydweithio gydag awdurdodau a rhannu dulliau, gan gynnwys meysydd polisi thematig cymharol, yn mynd i gael ei ddatblygu wrth i ni baratoi'r broses o baratoi'r Cynllun. Bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith a wneir gan SEWSPG a'r grwpiau Pathfinder sydd yn seiliedig ar destunau, sydd wedi helpu sefydlu dull cyffredin at nifer o dasgau sydd yn ymwneud gyda pharatoi'r Cynllun gan gynnwys asesiadau o safleoedd ymgeisiol, gwerthuso aneddiadau cynaliadwy a monitro tir manwerthu a chyflogaeth.
- Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi ar weithio rhanbarthol o ran darpariaethau'r dyfodol o ran y Cynlluniau Datblygu Strategol a Dyfodol Cymru.

#### **Cynllun Integredig Sengl (SIP), Cynllun Llesiant neu'r Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol (NPMP)**

- Paratowyd Cynllun Llesiant Sir Fynwy gan y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a chafodd ei gymeradwyo yn Chwefror 2018. Mae'r Materion, Gweledigaeth, ac Amcanion (Wedi ei ddiweddarau ym mis Mehefin 2021) yn cael eu tynnu a'u hadlewyrchu gan Gynllun Llesiant y BGC a oedd yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus gan y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn 2017 ac wedi arwain at gyfraniadau gan fwy na 1,400 o bobl. Mae'r dulliau yma yn adlewyrchu canllaw Llywodraeth Cymru sydd yn cydnabod pwysigrwydd y cynlluniau llesiant lleol fel ffynhonnell o dystiolaeth allweddol ar gyfer paratoi'r CDLI (paragraffau 1.6 a 1.21, PPW11). Yn hyn o beth, mae'r Cynllun Llesiant wedi bod yn rhan annatod o baratoi'r Strategaeth a Ffefrir gan sicrhau ei fod

	<p>yn mynd i'r afael gyda'r materion allweddol sydd wedi eu nodi ar gyfer Sir Fynwy. Mae'r Polisiâu Strategol hefyd yn amlinellu pa amcanion yn y Cynllun Llesiant y maent yn gysylltiedig gyda hwy.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Mae'r rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Fynwy wedi ei heithrio o ardal ddaearyddol y CDLID ac nid yw'n ffurfio rhan o gylch gorchwyl Awdurdod Cynllunio Sir Fynwy. Mae'r berthynas a'r effaith ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn parhau'n ystyriaeth bwysig wrth baratoi'r CDLID. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cael ei hystyried ei bod yn adlewyrchu amcanion 'Cynllun Rheoli ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog' (2015-2020), yn enwedig y themâu o ran 'Rheoli Tirwedd y Parciau' a 'Cadw a Gwella Bioamrywiaeth'. Mae Polisi Strategol SP18 – Seilwaith Gwyrdd, Tirwedd a Chadwraeth Natur o berthnasedd pwysig i gyflawni amcanion y Cynllun Rheoli.</li> </ul> <p><b>Cydweithio a Chydlafulio ar baratoi'r cynllun a'r sylfaen dystiolaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Fel sydd wedi ei arddangos uchod, mae rhan sylweddol o'r sylfaen dystiolaeth wedi ei chomisiynu ar y cyd gyda Blaenau Gwent a Thorfaen ac ar lefel ranbarthol gyda Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili a Chasnewydd. Rydym wedi cynnal cyfarfodydd cyson ar y cyd er mwyn sicrhau ein bod yn mabwysiadu dulliau cyson. Mae manylion pellach am y gwaith a wnaed ar y cyd a'r cydweithredu yn cael eu hamlinellu ym mharagraff 2.46 - 2.48 o'r Strategaeth a Ffefrir ac mae yna esiamplau penodol yn cael eu nodi yn y Strategaeth a Ffefrir o ran y Polisiâu Strategol.</li> <li>▪ Mae cyfarfodydd a chydweithredu parhaus hefyd yn digwydd fel rhan o'r Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru (SEWSPG), Swyddogion Cynllunio De Cymru (POSW) a Chymdeithas Swyddogion De Ddwyrain Cymru (SEWPOS).</li> </ul>
<p><b>Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol?</b> (A yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• A yw'n benodol i'r ardal leol?</li> <li>• A yw'n ymdrin â'r materion allweddol? • A yw'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?</li> <li>• A ellir dangos y rhesymeg wrth wraidd polisiâu'r cynllun?</li> <li>• A yw'n ceisio diwallu'r anghenion a aseswyd a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy?</li> <li>• A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn</li> </ul>	<p><b>A yw'n Benodol i'r Ardal Leol?</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn adeiladu ar amcanion y Cynllun Llesiant sydd yn benodol i'r ardal leol, gan ystyried canlyniadau'r broses ymgynghori a gynhaliwyd er mwyn ei baratoi. Mae ffurfio'r Strategaeth a Ffefrir wedi ei lywio gan dystiolaeth leol o Gynllun Llesiant Sir Fynwy. Mae canfyddiadau o'r Adroddiad Economiâu'r Dyfodol CSF (2018) hefyd wedi helpu ni adnabod materion ac opsiynau lleol penodol ar gyfer dyfodol Sir Fynwy. Wrth adeiladu ar y rhain, cynhaliwyd ymgynghoriad na sy'n statudol yn ystod Ionawr 2019 ar y papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion er mwyn adnabod y materion sydd yn wynebu Sir Fynwy ac yn trafod yr opsiynau sydd ar gael yn y CDLID. Mae penderfyniad y Cyngor i ddatgan Argyfwng Newid Hinsawdd ym 2019 hefyd wedi bod yn ffocws allweddol ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir sydd wedi ei datblygu. Yn dilyn hyn, roedd y Papur Opsiynau Twf a Gofodol (Rhagfyr 2020) wedi amlinellu opsiynau twf a gofodol amgen er mwyn mynd i'r afael gyda'r materion gwahanol sydd yn wynebu Sir Fynwy. O ganlyniad i'r ymarferion ymgynghori yma nad oedd yn statudol, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnig strategaeth sydd wedi deillio'n uniongyrchol o nifer o faterion lleol penodol iawn gan gynnwys demograffeg sydd yn</li> </ul>

<p>gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol?</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• A yw'r dewisiadau amgen 'go iawn' wedi cael eu hystyried yn briodol?</li><li>• A yw'n rhesymegol, yn rhesymol ac yn gytbwys?</li><li>• A yw'n gydlynol ac yn gyson?</li><li>• A yw'n glir ac a oes ganddo ffocws?</li></ul>	<p>heneiddio, prisiau tai uchel, cyfraddau allgymudo uchel ac ymroddiad at leoli datblygiadau yn aneddiadau mwyaf cynaliadwy Sir Fynwy.</p> <p><b>A yw'n mynd i'r afael gyda materion allweddol?</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>▪ Yn ogystal â'r uchod, mae pob un opsiwn twf a gofodol wedi ei asesu er mwyn ystyried ei gyfraniad i amcanion cyffredinol y CDLID. Mae manylion yr asesiad yma wedi eu hamlinellu yn y Papur Cefndir Opsiynau Twf a Gofodol (Mehefin 2021). Mae'r opsiynau twf a gofodol sydd yn ffurfio rhan o'r Strategaeth a Ffefrir wedi eu dewis gan eu bod yn cael eu hystyried fel y rhai gorau i fynd i'r afael gyda'r materion allweddol sydd yn wynebu'r Sir gan gynnwys demograffeg sy'n heneiddio, prisiau tai uchel a'r dosbarthiad arfaethedig o ddatblygiadau sydd yn seiliedig ar hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy ac egwyddorion datblygu cynaliadwy sydd yn ymgorffori'r heriau newid hinsawdd. Mae pob Polisi Strategol yn amlygu'r cysylltiadau gydag amcanion y CDLID ac amcanion Cynllun Llesiant BGC Sir Fynwy. Mae'r materion lleol yma yn cael eu nodi'n helaeth yn y Strategaeth a Ffefrir ac wedi ffurfio'r prif reswm dros y dull polisi a ddewiswyd.</li></ul> <p><b>A gaiff ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>▪ Rydym wedi bod yn gwneud gwaith helaeth yn casglu tystiolaeth er mwyn cefnogi'r Strategaeth a Ffefrir. Mae manylion wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 o'r Strategaeth a Ffefrir. At hyn, mae astudiaethau pellach a darnau o dystiolaeth naill ai yn, neu'n mynd, i gael eu cynnal a'u comisiynu, gan gynnwys modelu hyfywedd, Canlyniad Llifogydd Strategol ac Adolygiad Llain Las. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun fel sydd yn briodol ac yn angenrheidiol.</li></ul> <p><b>A ellir dangos y rhesymeg wrth wraidd polisiâu'r cynllun?</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>▪ Mae'r dystiolaeth sydd wedi ei gasglu wedi llywio'r broses o baratoi'r polisiâu strategol a rhaid eu darllen gyda'i gilydd er mwyn deall cyfeiriad polisi cyffredinol y Cynllun. Mae pob polisi strategol yn meddu ar gyfiawnhad sydd wedi ei resymu a thabl yn crynhoi sut y mae'n berthnasol i amcanion y CDLID, polisi cenedlaethol, Amcanion Llesiant a'r dystiolaeth allweddol. Mae'r Polisiâu Strategol yma wedi eu gosod fesul grŵp yn themâu polisi cyffredinol y PPW11 ac rydym yn cyfeirio at adrannau perthnasol o'r PPW11 gan fod y rhain, wedi eu cyfuno gyda'r dystiolaeth benodol leol, yn ffurfio rhan allweddol o sefydlu'r rhesymeg sydd yn rhan o bolisiâu'r Cynllun.</li></ul> <p><b>A yw'n ceisio diwallu'r anghenion a aseswyd a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy?</b></p>
--	---

- Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn deillio o'r dystiolaeth sydd yn asesu anghenion y Sir, yn enwedig o ran y cartrefi (rhai marchnad a fforddiadwy) a swyddi, ynghyd a'r angen i ddiogelu'r darnau o dir mwyaf gwerthfawr. Rydym wedi cynnal gwaith modelu poblogaeth ac aelwydydd ac mae detholiad o opsiynau poblogaeth, tai a thwf economaidd wedi bod yn rhan o ymgynghoriad yn y Papur Ymgynghoriad Opsiynau Twf a Gofodol (Rhagfyr 2020). Mae hyn hefyd yn darparu manylion ar ba mor dda y mae pob opsiwn yn diwallu anghenion Sir Fynwy, yn seiliedig ar y papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion. At hyn, mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol wedi cynnig tystiolaeth allweddol am y lefel o dai fforddiadwy sydd angen yn y Sir. Mae Adolygiad Tir Cyflogaeth hefyd wedi ei gynnal er mwyn ceisio nodi'r tir sydd angen yn y dyfodol ar gyfer cyflogaeth, a hynny'n seiliedig ar Ganllaw Ymarfer ar gyfer Datblygu Economaidd Llywodraeth Cymru. Mae'r angen am dai a swyddi wedi eu hystyried ar y cyd gyda'r angen i ddiogelu adnoddau tir y Sir at ddibenion amgylcheddol, amaethyddol a chadwraeth natur. Byddwn yn taro cydbwysedd rhwng yr anghenion gwahanol ac weithiau cystadleuol yma a bydd yn parhau yn ffocws allweddol ar gyfer y CDLID wrth iddo symud i'r cyfnod Adneuo.
- Mae sicrhau datblygiadau cynaliadwy yn rhan ganolog o'r Cynllun. Mae'r broses Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig yn chwarae rhan ganolog ac iteraidd yn y broses o baratoi'r CDLID. Yn hyn o beth, mae'r modd y caiff ei ddefnyddio i brofi neu fesur perfformiad y CDLID, o'i ddechreuad i'r Strategaeth a Ffefrir, yn dynodi'r adborth iteraidd rhwng yr ISA a'r CDLID wrth i'r gwaith fynd rhagddo.
- Mae hierarchaeth o aneddiadau wedi ei ddatblygu gan ystyried hygyrchedd cynaliadwy pob un anheddiad a sut y maent yn cyfrannu i'w cymunedau ehangach. Mae'r hierarchaeth yma yn cydnabod argaeledd y gwasanaethau a'r cyfleusterau, materion hygyrchedd ac ystyriaethau eraill. Dylid cyfeirio at y Papur Cefnogol Gwerthusiad o Aneddiadau Cynaliadwy (Mehefin 2021) am y manylion llawn. Mae'r gwaith hwn wedi ffurfio'r sylfaen ar gyfer y strategaeth ofodol arfaethedig, sydd yn ceisio sicrhau bod datblygiadau yn cael eu lleoli yn yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy o fewn cyd-destun Sir Fynwy.

**A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol**

- Mae Gweledigaeth y CDLID wedi ei datblygu er mwyn ystyried yr heriau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer newid, tra hefyd bod yn ddigon uchelgeisiol a chadarnhaol er mwyn atal y dirywiad fel arall mewn swyddi a grwpiau oedran iau sydd yn y Sir, fel sydd wedi eu nodi ym mhrif amcanestyniadau 2018 Llywodraeth Cymru. Mae'r weledigaeth ar gyfer twf yn un positif sydd yn ceisio creu llefydd o ansawdd uchel, cynaliadwy mewn aneddiadau trefol a gwledig o fewn cyd-destun Sir Fynwy. Mae'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol, ond eto'n realistig o ran y twf y mae modd sicrhau o fewn Sir Fynwy a'n mynd i'r afael gyda materion allweddol cenedlaethol a lleol, fel darparu tai fforddiadwy, tyfu sylfaen economaidd Sir Fynwy, mynd i'r afael gyda newid hinsawdd a chreu llefydd cynaliadwy i fyw a gweithio

ynddynt. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cael ei hystyried fel rhywbeth sydd taro cydbwysedd o ran twf drwy gynnig strategaeth sydd yn ddigon uchelgeisiol er mwyn mynd i'r afael gyda'r materion allweddol sydd yn wynebu'r Sir, tra hefyd yn rhywbeth y mae modd ei gyflenwi ac yn adeiladu ar newidiadau sylweddol sydd wedi digwydd ers pandemig Covid-19 fel y duedd gynyddol i weithio gartref a'r pwysigrwydd o greu cymunedau gyda gwasanaethau hygrych lleol. Byddwn yn cynnig mwy o dystiolaeth o'r elfen hon o'r Cynllun wrth i'r Cynllun symud ymlaen at y cyfnod Adneuo.

**A yw'r dewisiadau amgen 'go iawn' wedi cael eu hystyried yn briodol?**

- Ystyriwyd nifer o opsiynau twf a gofodol amgen fel rhan o'r Papur Ymgynghori ar Opsiynau Twf a Gofodol (Rhagfyr 2020). Mae asesiad o'r holl opsiynau wedi ei nodi yn Adran 4 o'r Strategaeth a Ffefrir ac mewn mwy o fanylder yn y Papur Cefndir Opsiynau Twf a Gofodol (Rhagfyr 2020). Mae'r Opsiynau Strategol hefyd wedi eu hystyried fel rhan o'r broses ISA.

**A yw'n rhesymegol, yn rhesymol ac yn gytbwys?**

- Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn deillio o ddealltwriaeth glir o'r materion ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae wedi ystyried ystod o opsiynau ac wedi ystyried y farn a fynegwyd yn yr ystod y materion ymgynghori ac ymgysylltu nad oedd yn statudol a gwnaed newidiadau i'r opsiynau yn sgil hyn. Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi deillio o ymgysylltu a thystiolaeth, a chaiff ei hystyried yn rhesymegol ac yn rhesymol o fewn y cyd-destun sydd yn wynebu Sir Fynwy. Mae'n cynnig dull cytbwys sydd yn integreiddio gyda chynlluniau a strategaethau eraill, tra'n sicrhau ei fod yn adlewyrchu polisi cenedlaethol a'r angen am Gynllun cynaliadwy, y mae modd ei weithredu.

**A yw'n gydlynol ac yn gyson?**

- Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn amlinellu strategaeth gydlynol ac mae'r polisiâu strategol yn deillio o hyn. Mae'r strategaeth yn cael ei llywio, ac yn gyson, gyda gweledigaeth ac amcanion y Cynllun, yr egwyddorion o gynaliadwyedd sydd wedi eu hamlinellu mewn canllawiau cynllunio cenedlaethol, yr opsiynau twf a gofodol a'r sylfaen dystiolaeth.

**A yw'n glir ac a oes yna ffocws?**

- Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi ei hamlinellu mewn modd eglur a rhesymegol, gan ddangos y cysylltiadau rhwng elfennau amrywiol y Strategaeth. Mae'n darparu ffocws eglur o'i bwrpas, gan adnabod y weledigaeth a'r materion sydd yn gysylltiedig gyda'r Cynllun a sut y bydd y Strategaeth a Ffefrir yn mynd i'r afael gyda hyn.



**Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni** (A yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

- A fydd yn effeithiol?
- A ellir ei weithredu?
- A oes cefnogaeth gan y darparwyr seilwaith perthnasol yn ariannol ac o ran bodloni amserlenni perthnasol?
- A fydd y datblygiad yn hyfyw?
- A ellir cyflawni'r safleoedd a ddyrannwyd?
- A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes darpariaethau wrth gefn priodol?
- A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?

**A fydd yn effeithiol?**

- Mae amcanion y Strategaeth a Ffefrir yn deillio o ddealltwriaeth o'r heriau a'r anghenion o Sir Fynwy ynghyd â sylfaen dystiolaeth gadarn, resymegol a chadarn. Mae'r strategaeth yn ceisio integreiddio ac adlewyrchu Cynlluniau a Strategaethau eraill fel rhan o ddull integredig tuag at gyflenwi, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i fod yn effeithiol o ran ei gweithredu.
- Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn gwneud darpariaeth ar gyfer 8,366 o gartrefi, gan gynnwys tua 2,450 o dai fforddiadwy a fydd yn gwneud cynnydd sylweddol yn y dasg o ddelio gyda'r rhestr aros bresennol. Bydd y lefel yma o dwf yn caniatáu ni ddarparu tai marchnad a rhai fforddiadwy, ac yn fwy pwysig, y cyfle i fynd i'r afael gyda'r demograffi anghybwys, gwella'r dasg o gadw'r farchnad lafur a'u hatal rhag gadael a chynorthwyo gyda her tai fforddiadwy'r Sir.
- Er mwyn cwrdd â'r ffigwr darpariaeth tai o 8,366, bydd angen i'r CDLID i wneud dyraniadau newydd ar gyfer 3,658 o gartrefi, sydd yn adlewyrchu'r nifer o unedau sydd eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio neu a fydd yn cael eu cyflenwi drwy ffynonellau eraill o ran cyflenwi tai, fel safleoedd ar hap a mewnlenni. Mae'r dyraniadau newydd yma yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor i osod cyfeiriadau hirdymor ar gyfer twf strategol a'n gweithredu egwyddorion creu lleoedd a newid hinsawdd.
- Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio er mwyn darparu 7,215 o swyddi dros gyfnod y Cynllun i helpu ehangu sylfaen economaidd Sir Fynwy a lleihau'r profiad allgymudo o fewn y Sir. Mae'r lefel yma o dwf swyddi yn gyson gyda'r boblogaeth amcanestynedig a'r twf tai ac yn ystyried yr addasiadau i gyfraddau aelodaeth aelwydydd ar gyfer grwpiau oedran is a lefel llai o gymudo drwy gadw cyfran uwch o'r boblogaeth sydd yn gweithio. Mae yna newid sylfaenol wedi bod mewn patrymau gweithio ers dechrau pandemig Covid-19 gyda thuedd gynyddol i weithio gartref/o bell. Mae disgwyl i'r duedd hon barhau yn y tymor hir yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i weld 30% o'r gweithlu yng Nghymru yn gweithio gartref neu'n agos at adref. Mae hyn yn cynnig cyfle i drigolion i fyw a gweithio yn y Sir yn y ffordd newydd hon, gan gynnig dull hyblyg i ni sicrhau'r lefel yma o dwf swyddi tra hefyd yn cyflawni amcan Llywodraeth Cymru a'r Cyngor o leihau'r angen am gymudo. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddyrannu isafswm o 43ha o dir cyflogaeth er mwyn hwyluso ei ddefnydd ar gyfer cyflogaeth diwydiannol a busnes. Mae prosiectau economaidd fel Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf ac Uchelgais (Tachwedd 2019) a'r Prosiectws Buddsoddiad (March 2020) yn cefnogi'r opsiynau ymyrraeth sydd angen i greu swyddi. Bydd y CDLID yn cynnwys polisi fframwaith er mwyn cefnogi twf mewn swyddi o sectorau cyflogaeth allweddol gan gynnwys manwerthu, hamdden a thwristiaeth.
- Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn arwain at 0.42% ychwanegol o dir y Sir yn cael ei adeiladu arno. Mae amcan allweddol o'r Cynllun yn cynnwys parhau i gadw a diogelu natur wledig, tirwedd a'r tir amaethyddol gorau ac amlbwrpas.

**A ellir ei weithredu?**

- Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi ei baratoi fel bod modd ei weithredu a bod y polisiâu a'r cynigion yn medru cael eu cyflawni o fewn cyfnod y Cynllun. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn amlinellu fframwaith gofodol y mae modd ei gweithredu a thwf strategol sydd yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd ac yn ymatebol i anghenion cymunedau Sir Fynwy. Mae'r polisiâu a'r cynigion (y rhai strategol a'r rhai mwy manwl o fewn y Cynllun Wedi'i Adneuo ar gyfer y dyfodol) yn mynd i ddarparu'r fframwaith ar er mwyn gweithredu amcanion y Cynllun a bydd y broses o wneud penderfyniadau yn cael ei gweithredu o fewn hyn. Bydd mwy o waith asesu manwl, yn ymdrin gyda materion fel hyfywedd, y cyfnod ar gyfer cyflenwi a'r modd y caiff y safleoedd eu cyflenwi, yn cael ei wneud er mwyn paratoi'r broses o greu'r Cynllun Wedi'i Adneuo.
- Fel rhan o baratoi'r CDLID Wedi'i Adneuo, bydd fframwaith monitro effeithiol a phriodol yn cael ei ddatblygu a'i gynnwys o fewn y Cynllun. Bydd hyn yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Bydd yr AMB yn cynnig y prif ddull ar gyfer mesur ac asesu'r cynnydd a wneir o ran gweithredu'r polisiâu a'r cynigion yn y CDLID diwygiedig.

**A oes cefnogaeth gan y darparwyr seilwaith perthnasol yn ariannol ac o ran bodloni amserlenni perthnasol?**

- Mae darparwyr seilwaith yn rhan bwysig o ddatblygu'r CDLID ac yn ymgynghoreion allweddol. Yn hyn o beth, rydym wedi ac yn mynd i barhau i ymgysylltu gyda hwy drwy gydol y broses o lunio'r Cynllun. Bydd ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal wrth i ni baratoi'r Cynllun Wedi'i Adneuo er mwyn sicrhau bod yna dystiolaeth eglur ar gyfer gweithredu'r Cynllun. Fel sydd wedi ei nodi uchod, mae yna drafodaethau wedi eu cynnal rhwng y Cyngor a'r darparwyr cyfleustodau gan gynnwys Western Power a Dŵr Cymru. Mae darparwyr seilwaith eraill hefyd wedi eu cynnwys fel rhan o drafodaethau parhaus gan gynnwys y Bwrdd Iechyd a Thrafnidiaeth Cymru.

**A fydd y datblygiad yn hyfyw?**

- Mae angen sicrhau bod y datblygiad hyfyw yn elfen bwysig o baratoi'r Cynllun a bydd angen dangos hyn o ran adnabod y safleoedd neu o ran datblygu polisiâu penodol. Mae gwaith yn cael ei wneud ar lefel ranbarthol er mwyn sefydlu methodoleg gadarn a chyson i asesu hyfywedd ar draws awdurdodau yn rhanbarth de ddwyrain Cymru. Mae'r gwaith hyn yn cyd-fynd gyda'r gwaith modelu hyfywedd ar lefel safle, sydd yn sicrhau bod asesiadau hyfywedd a gyflwynwyd gyda'r safleoedd ymgeisiol yn cael eu llywio gan amodau a pholisiâu lleol a bod yna sylfaen dystiolaeth gref.

- Mae ail alwad am safleoedd ymgeisiol yn cael ei gynnal dros gyfnod o 6 wythnos, gan ddechrau ar yr un pryd â'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir. Mae angen gwybodaeth fanwl am hyfywedd safleoedd fel rhan o'r ymarfer hwn, gyda nod canllaw wedi ei gyhoeddi er mwyn helpu tirfeddianwyr a datblygwyr ar y lefel a'r math o wybodaeth sydd angen. Mae grŵp Llywio Hyfywedd hefyd wedi ei sefydlu er mwyn llywio'r broses hyfywedd ac yn sicrhau bod mewnbwn allweddol yn adlewyrchu amodau'r farchnad yn Sir Fynwy. Mae'r wybodaeth benodol am y safle a'r gwaith modelu hyfywedd yn mynd i gael ei ddefnyddio er mwyn profi fod y safleoedd yn y Cynllun Wedi'i Adneuo yn hyfyw

**A ellir cyflawni'r safleoedd a ddyrannwyd?**

- Nid yw'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi unrhyw ddyraniadau penodol. Bydd dyraniadau yn cael eu nodi fel rhan o'r Cynllun Wedi'i Adneuo gyda thystiolaeth o'r modd y byddant yn medru cael eu gweithredu.

**A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes darpariaethau wrth gefn priodol?**

- Mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi ei ddylunio er mwyn darparu fframwaith polisi hyblyg sydd yn medru cynnig sicrwydd ar faint o dwf a gynigir a'i ddsbarthiad cyffredinol, ond mae'n ddigon hyblyg i ystyried cyfleoedd priodol a derbyniol sydd yn medru dod i'r amlwg yn ystod cyfnod y Cynllun fel safleoedd ar hap a datblygiadau mentergarwch gwledig. Mae'r ffigyrau gofynion aneddiadau a thir cyflogaeth yn cynnwys lwfans hyblyg ar gyfer amgylchiadau na sydd wedi eu rhagweld ac sydd yn dod i'r amlwg yn ystod cyfnod y Cynllun. Bydd y lwfans hyblygrwydd yn derbyn ystyriaeth bellach fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Wedi'i Adneuo.

**A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?**

- Fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun Wedi'i Adneuo, bydd fframwaith monitro effeithiol a phriodol yn cael ei ddatblygu a'i gynnwys o fewn y Cynllun ac yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer llunio'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Bydd yr AMB yn cynrychioli'r brif ffordd o fesur ac asesu'r cynnydd a wneir o ran gweithredu'r polisïau a'r cynigion sydd yn rhan o'r CDLID sydd wedi ei fabwysiadu. Yn y cyfamser, bydd nifer o ymarferion monitro blynyddol yn parhau i gael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth yn gyfredol. Mae yn cynnwys arolygon tai blynyddol, Arolygon Cyflogaeth a Manwerthu. Yn y cyfamser, bydd nifer o ymarferion monitro blynyddol yn parhau i gael eu cynnal er mwyn helpu sicrhau bod y dystiolaeth yn gyfredol. Mae hyn yn cynnwys yr arolygon tai blynyddol, Arolygon Cyflogaeth a Manwerthu a pharatoi'r Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLI Sydd Wedi Ei Fabwysiadu.

## Atodiad 1

### Strategaeth a Ffefrir CDLID Sir Fynwy – Asesiad o Gydydffurfiaeth Gyffredinol gyda Dyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2040

Cyhoeddwyd Dyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2040 (cyfeirir at y ddogfen fel Dyfodol Cymru o hyn ymlaen) gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2021 er mwyn hyrwyddo datblygiadau sydd yn gwella llesiant ac ansawdd bywyd yng Nghymru. Mae'n ystyried y materion sydd yn sylweddol o ran ffyniant a llesiant Cymru, fel yr economi, tai, trafniadaeth, ynni a'r amgylchedd. Mae'n nodi lle y dylid gweithredu datblygiadau, lle y mae'r meysydd twf allweddol a pha seilwaith a gwasanaethau sydd eu hangen. Mae wedi ei osod mewn cyd-destun gweledigaeth a fydd yn darparu lleydd cynaliadwy yng Nghymru erbyn 2040, drwy gefnogi creu lleoedd a'n sicrhau ein bod yn cyfeirio datblygiadau i'r lleydd cywir, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau, gan greu a chynnal cymunedau iachus hygyrch, diogelu ein hamgylchedd a chefnogi ffyniant i bawb.

Mae'r angen i sicrhau bod cynllun datblygu yn cydydffurfio'n gyffredinol gyda'r cynllun datblygu statudol haen uchaf yng Nghymru wedi ei nodi mewn deddfwriaeth gynradd. Mae Polisi Cynllunio Cymru 11 (Chwefror 2021) a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020) yn darparu canllaw ychwanegol ynglŷn â sut i asesu cydydffurfiaeth. Mae paragraff 2.18 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi: "Nid yw'r ffaith y gall cynllun datblygu fod yn anghyson ag un neu fwy o bolisiau yn y cynllun haen uchaf, naill ai'n uniongyrchol neu drwy hepgor polisi/cynnig, yn golygu, ynddo'i hun, nad yw'r cynllun yn cydydffurfio'n gyffredinol. Yn hytrach, y pwynt sylfaenol yw pa mor arwyddocaol yw'r anghysondeb o safbwynt cyflawni'r cynllun haen uchaf." Mae'n nodi wedyn ym mharagraff 2.19: "Er y byddai'n dderbyniol i'r cynllun haen is ddarparu rhagor o fanylion mewn perthynas â'i wneud yn fwy unigryw i'r ardal leol, ni ddylai danseilio'r strategaeth, y polisiau na'r cynigion cyffredinol yn y cynllun(iau) haen uchaf." Mae'r angen i sicrhau cydydffurfiaeth gyffredinol gyda Dyfodol Cymru hefyd yn brawf o gadernid a bydd yn cael ei brofi drwy gyfrwng y broses archwilio.

Pwrpas yr Atodiad hwn yw dangos fod Strategaeth a Ffefrir Sir Fynwy yn cynorthwyo i helpu cyflenwi polisiau Dyfodol Cymru ac yn cydydffurfio'n gyffredinol gyda'i strategaeth gyffredinol.

Mae'r adran ddilynol yn asesu a yw amcanion y CDLID a'r Polisiau Strategol sydd wedi eu hamlinellu yn y Strategaeth a Ffefrir yn cael eu hystyried fel rhai sydd yn cydydffurfio gyda Dyfodol Cymru gan ddefnyddio'r model goleuadau traffig a nodir isod:

Ystyrir bod y CDLID/Strategaeth a Ffefrir mewn cydydffurfiaeth gyffredinol gydag amcanion polisi 'Dyfodol Cymru'.

Ystyrir bod y CDLID/Strategaeth a Ffefrir yn mynd i wneud cyfraniad niwtral i amcanion polisi 'Dyfodol Cymru'.

Ni ystyrir bod y CDLID/Strategaeth a Ffefrir mewn cydydffurfiaeth gyffredinol gydag amcanion polisi 'Dyfodol Cymru'.

Polisi Dyfodol Cymru*	Relevant RLDP Objectives and Preferred Strategy Strategic Policies	General Conformity with FW Strategy
<p><b>Polisi 1 – Ble bydd Cymru yn tyfu</b> Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf cynaliadwy ledled Cymru. Mewn tair Ardal Twf Cenedlaethol gwelir twf cyflogaeth a thai a buddsoddi mewn seilwaith. Yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd</li> <li>• Bae Abertawe a Llanelli</li> <li>• Wrecsam a Glannau Dyfrdwy Ategrir yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol gan Ardaloedd Twf Rhanbarthol a fydd yn tyfu, yn datblygu ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a masnachol yn rhanbarthol. Ceir Ardaloedd Twf Rhanbarthol mewn tri rhanbarth:</li> <li>• Y De-orllewin</li> <li>• Y Canolbarth</li> <li>• Y Gogledd</li> </ul> <p>Dylai mesurau datblygu a thwf mewn trefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig fod yn briodol o ran maint a chefnogi dyheadau ac anghenion lleol</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 1 – Twf Economaidd / Cyflogaeth Amcan 6 – Tir Amcan 9 – Demograffeg Amcan 10 – Tai Amcan 12 – Cymunedau Amcan 13 – Cymunedau Gwledig</p> <p>Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S1 – Twf Strategol Cynaliadwy a Chadarn S2 – Dosbarthiad Gofodol o Ddatblygiadau – Hierarchaeth Aneddiadau S6 – Delivery of Homes S7 – Tai Fforddiadwy S8 – Safleoedd Datblygu Strategol S10 – Trafnidiaeth Gynaliadwy S13 – Darparu Safleoedd Cyflogaeth</p>	<p>Nid yw Sir Fynwy yn cael ei nodi fel ardal o dwf yn 'Dyfodol Cymru'; fodd bynnag, mae'r polisi yn caniatáu twf mewn trefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig sydd ar raddfa briodol ac yn cefnogi dyheadau ac anghenion lleol. Mae lefel twf y Strategaeth a Ffefrir wedi deillio o ddealltwriaeth o'r materion, yr heriau ac anghenion Sir Fynwy ynghyd â sylfaen dystiolaeth sydd yn gadarn ac yn rhesymegol.</p> <p>Ymgynghorwyd ar nifer o opsiynau twf a gofodol yn y Papur Opsiynau Twf a Gofodol (Rhagfyr 2020). Mae'r papur yn amlinellu sut y bydd y lefelau a'r dosbarthiad gwahanol o dwf yn effeithio ar faterion ac amcanion allweddol y CDLID. Ar y cyfan, mae lefel a dosbarthiad y twf a gynigir yn y Strategaeth a Ffefrir yn cael eu hystyried yn fwyaf cydnaws i wireddu gweledigaeth y CDLID a phwrpas craidd y Cyngor o adeiladu cymunedau cynaliadwy a chadarn ar draws Sir Fynwy. Mae hefyd yn perfformio'n fwyaf positif yn erbyn amcanion y CDLID ac yn well yn gyffredinol yn erbyn y themâu ISA nag unrhyw un o'r pum opsiwn twf a'r tri opsiwn gofodol a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad.</p> <p>Mae manylion pellach yn y Papur Cefndir Opsiynau Twf a Gofodol (Mehefin 2021). Mae hyn yn amlinellu'r lefel arfaethedig o dwf o 8,366 o gartrefi (gan gynnwys 2,450 o dai fforddiadwy), 43ha o dir cyflogaeth a'r fframwaith polisi er mwyn darparu 7,215 o swyddi yn mynd i'r afael gyda heriau allweddol y Sir gan gynnwys demograffeg anghybwys, cadw mwy o'r farchnad lafur yn lleol a lleihau cyfraddau allgymudo</p>

		<p>a chynorthwyo gyda'r her tai fforddiadwy sydd yn wynebu'r Sir. Ar sail y sylfaen dystiolaeth sydd wedi ei pharatoi er mwyn cefnogi'r Strategaeth a Ffefrir, roedd wedi ystyried bod lefel a dosbarthiad y twf arfaethedig o raddfa briodol ac yn mynd i'r afael gyda dyheadau ac anghenion lleol.</p>
<p><b>Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol</b></p> <p>Dylai tyfu ac adfywio trefi a dinasoedd wneud cyfraniad cadarnhaol at greu lleoedd cynaliadwy sy'n cefnogi bywydau egniol ac iach, gyda chymdogaethau trefol cywasgedig a cherddedadwy, sydd wedi'u trefnu o amgylch canolfannau defnydd cymysg a thrafnidiaeth gyhoeddus ac wedi'u hintegreiddio â seilwaith gwyrdd. Dylai twf ac adfywio trefol fod yn seiliedig ar yr egyptdorion creu lleoedd strategol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu cymysgedd cyfoethog o ddefnyddiau;</li> <li>• darparu amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaethau;</li> <li>• adeiladu lleoedd cerddedadwy, gyda chartrefi, cyfleusterau lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus o fewn pellter cerdded i'w gilydd;</li> <li>• cynyddu dwysedd y boblogaeth, gyda gwaith datblygu ar ddwyseddau trefol a all gefnogi trafndiaeth gyhoeddus a chyfleusterau lleol;</li> <li>• sefydlu rhwydwaith hydraid o strydoedd, gyda hierarchaeth sy'n llywio natur gwaith datblygu;</li> <li>• hyrwyddo gwaith datblygu seiliedig ar leiniau, sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu lleiniau bach, gan gynnwys rhai ar gyfer tai ar archeb a hunanadeiladwyr;</li> <li>• integreiddio seilwaith gwyrdd, a gaiff ei lywio gan Asesiad Seilwaith Gwyrdd yr awdurdod cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio cynlluniau datblygu i bennu gweledigaeth ar gyfer pob tref a dinas. Dylai hyn</li> </ul>	<p>Amcanion y CDLID:</p> <p>Amcan 3 – Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth a Thirwedd</p> <p>Amcan 8 – Iechyd a Llesiant</p> <p>Amcan 11 – Creu Lleoedd</p> <p>Amcan 12 – Cymunedau</p> <p>Amcan 13 – Cymunedau Gwledig</p> <p>Amcan 15 – Hygyrchedd</p> <p>Amcan 16 – Diwylliant, Treftadaeth ac Iaith Gymraeg</p> <p>Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir:</p> <p>S3 – Creu Lleoedd Cynaliadwy a Dylunio Safon Uchel</p> <p>S10 – Trafnidiaeth Gynaliadwy</p> <p>S12 – Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden</p> <p>S18 – Seilwaith Gwyrdd, Tirwedd a Chadwraeth Natur</p>	<p>Amcan craidd y Strategaeth a Ffefrir yw darparu cymunedau cynaliadwy a chadarn. Mae'r Fframwaith Polisi Strategol yn ceisio sicrhau bod datblygiadau yn cyfrannu at greu llefydd cynaliadwy sydd yn ffocysu ar greu lleoedd ac yn sicrhau bod cymunedau Sir Fynwy yn gynaliadwy yn yr hirdymor ac yn llefydd deniadol i fyw, gweithio ac ymweld.</p> <p>Mae'r polisi fframwaith sydd wedi ei amlinellu yn y Strategaeth a Ffefrir yn cael ei ystyried ei fod yn adlewyrchu amcanion polisi 'Dyfodol Cymru' ac yn darparu'r sylfaen i wneud cyfraniad sylweddol i'r amcanion o greu llefydd ar lefel leol o fewn Sir Fynwy.</p>

<p>gael ei ategu gan fframwaith gofodol sy'n arwain twf ac adfywio ac sy'n sefydlu strwythur lle gall trefi a dinasoedd dyfu, datblygu, arallgyfeirio a ffynnu dros amser.</p>		
<p><b>Polisi 3 – Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol – Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus</b> Bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl alluogi a gweithredol yn cefnogi twf ac adfywio trefol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydgasglu tir, yn buddsoddi mewn seilwaith ac yn paratoi safleoedd i'w datblygu. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus i ddatgloi potensial eu tir a'u cefnogi i chwarae rôl ddatblygu gynyddol. Rhaid i'r sector cyhoeddus ddangos arweinyddiaeth a rhoi egwyddorion creu lleoedd ar waith er mwyn cefnogi twf ac adfywio er budd cymunedau ledled Cymru. Rhaid i ddefnydd y sector cyhoeddus o dir, datblygiadau, buddsoddiadau a chymau gweithredu adeiladu lleoedd cynaliadwy sy'n gwella iechyd a llesiant. Rhaid i awdurdodau cynllunio chwarae rôl ragweithiol a chydweithio â Llywodraeth Cymru a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus i nodi'r lleoliadau gorau ar gyfer twf ac adfywio, a darparu sicrwydd ynghylch sut y dylid eu datblygu.</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 1 – Twf Economaidd / Cyflogaeth Amcan 10 – Tai Amcan 11 – Creu Lleoedd Amcan 14 – Seilwaith</p> <p>Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S1 – Twf Strategol Cynaliadwy a Chadarn S2 – Dosbarthiad Gofodol o Ddatblygiadau – Hierarchaeth Aneddiadau S3 – Creu Lleoedd Cynaliadwy a Dylunio Safon Uchel S5 – Darparu Seilwaith S6 – Delivery of Homes S7 – Tai Fforddiadwy S8 – Safleoedd Datblygu Strategol S13 – Darparu Safleoedd Cyflogaeth</p>	<p>Mae'r fframwaith polisi Strategaeth a Ffefrir yn gosod ffocws clir ar gyfer twf yn Sir Fynwy drwy adeiladu cymunedau cynaliadwy a chadarn fel gweledigaeth graidd. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cydnabod y rôl sylweddol y mae'n rhaid i'r Cyngor chwarae wrth ddarparu arweiniad cyhoeddus wrth geisio cyflawni'r amcan yma. Un o amcanion allweddol y Strategaeth a Ffefrir yw mynd i'r afael gyda'r her tai fforddiadwy sydd yn wynebu'r Sir.</p> <p>Bydd y CDLID yn helpu nodi'r meysydd tai penodol lle y mae angen ar safleoedd i sicrhau bod 50% o'r aneddiadau yn fforddiadwy. Er mwyn helpu cyflawni hyn, mae'r Cyngor yn cynnal gwerthusiadau dechreuol er mwyn ystyried rhinweddau sefydlu Cwmni Datblygu er mwyn gweithredu datblygiadau preswyl a masnachol. Mae hefyd yn gweithio'n agos gyda datblygwyr preifat a Landlordiaid Cymdeithasol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni amcanion y Strategaeth a Ffefrir. Yn debyg i hyn, mae'r CDLID wedi bod yn chwarae rôl allweddol yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer twf economaidd a'r blaenoriaethau sydd wedi eu gosod yn Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf Economaidd ac Uchelgais.</p>
<p><b>Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig</b> Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol nodi eu cymunedau gwledig, asesu eu hanghenion a gosod polisiâu sy'n eu cefnogi. Dylai polisiâu ystyried sut y gellir cyflawni cymunedau cytbwys o ran oedran, lle dylid gwrthdroi diboblogi ac ystyried rôl tai fforddiadwy a</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 1 – Twf Economaidd / Cyflogaeth Amcan 8 – Iechyd a Llesiant Amcan 9 – Demograffeg Amcan 10 – Tai Amcan 11 – Creu Lleoedd Amcan 12 – Cymunedau Amcan 13 – Cymunedau Gwledig</p>	<p>Mae'r materion sydd wedi eu nodi ym Mholisi 4 o 'Dyfodol Cymru' yn ymwneud yn uniongyrchol gyda'r materion a'r heriau y mae CDLID Sir Fynwy yn ceisio mynd i'r afael gyda hwy. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnig lefel a dosbarthiad o dwf sydd yn cynnig cyfle i fynd i'r afael gyda'r materion/heriau allweddol sydd yn wynebu'r Sir gan gynnwys demograffeg anghytwys, cadw mwy o'r farchnad lafur yn lleol a lleihau cyfraddau allgymudo a chynorthwyo gyda'r her</p>

<p>marchnad newydd, cyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau lleol a mwy o symudedd wrth ateb yr heriau hyn.</p>	<p>Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S1 – Twf Strategol Cynaliadwy a Chadarn S2 – Dosbarthiad Gofodol o Ddatblygiadau – Hierarchaeth Aneddiadau S3 – Creu Lleoedd Cynaliadwy a Dylunio Safon Uchel S6 – Delivery of Homes S7 – Tai Fforddiadwy S10 – Trafnidiaeth Gynaliadwy S14 – Mentergarwch Gwledig S15 – Economi Ymwelwyr</p>	<p>tai fforddiadwy sydd yn wynebu'r Sir. Yn hyn o beth, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cael ei hystyried fel rhywbeth sydd yn cynnig cyfraniad sylweddol at gyflawni amcanion Polisi 4 o 'Dyfodol Cymru' tra hefyd yn fwyaf cydnaws i wireddu gweledigaeth y CDLID y Cyngor a phwrpas craidd y Cyngor o adeiladu cymunedau cynaliadwy a chadarn ar draws Sir Fynwy. Mae hefyd yn perfformio'n fwyaf positif yn erbyn amcanion y CDLID ac yn well yn gyffredinol yn erbyn y themâu ISA nag unrhyw un o'r pum opsiwn twf a'r tri opsiwn gofodol a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad.</p>
<p><b>Polisi 5 – Cefnogi'r economi wledig</b> Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, priodol a chymesur mewn trefi gwledig sydd wedi'i gynllunio ac a reolir drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynllunio'n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cyflogaeth ardaloedd gwledig, gan gynnwys cyflogaeth yn deillio o'r economi sylfaenol; y sector amaethyddol a choedwigaeth, gan gynnwys cynigion i arallgyfeirio; busnesau newydd a microfusnesau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gefnogol iawn i ddatblygu sectorau a busnesau technoleg arloesol ac sy'n dod i'r amlwg, er mwyn helpu ardaloedd gwledig i wireddu eu potensial llawn, gan ehangu'r sail economaidd a chreu swyddi cyflog uwch.</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 1 – Twf Economaidd / Cyflogaeth Amcan 9 – Demograffi Amcan 11 – Creu Lleoedd Amcan 12 – Cymunedau Amcan 13 – Cymunedau Gwledig Amcan 16 – Diwylliant, Treftadaeth ac Iaith Gymraeg</p> <p>Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S1 – Twf Strategol Cynaliadwy a Chadarn S2 – Dosbarthiad Gofodol o Ddatblygiadau – Hierarchaeth Aneddiadau S3 – Creu Lleoedd Cynaliadwy a Dylunio Safon Uchel S5 - Seilwaith</p>	<p>Her sylweddol y Sir Fynwy yw'r angen i gynnal ac adfywio economi wledig y Sir mewn modd sydd yn gydnaws gyda Pholisi 5 'Dyfodol Cymru'. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn darparu fframwaith polisi sydd yn caniatáu am greu amrywiaeth a mentergarwch mewn ardaloedd gwledig ynghyd â'r seilwaith, yn ffisegol ac yn ddigidol er mwyn hwyluso hyn. Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn cydnabod y rôl y mae amaethyddiaeth a choedwigaeth, twristiaeth a hamdden yn chwarae yn economi Sir Fynwy ac yn ceisio hwyluso eu twf ar raddfa briodol.</p>



	S14 – Mentergarwch Gwledig S15 – Economi Ymwelwyr	
<p><b>Polisi 6 – Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf</b></p> <p>Rhaid lleoli cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd sylweddol yng nghanol trefi a dinasoedd. Dylai fod ganddynt gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da, a hynny i'r dref neu'r ddinas gyfan ac allan ohoni, a, lle y bo'n briodol, y rhanbarth ehangach. Rhaid defnyddio dull dilyniannol o weithredu er mwyn llywio'r gwaith o ddod o hyd i'r lleoliad gorau ar gyfer y datblygiadau hyn a dylent gael eu nodi mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol.</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 1 – Twf Economaidd / Cyflogaeth Amcan 2 – Canolfannau Manwerthu Amcan 11 – Creu Lleoedd Amcan 12 – Cymunedau Amcan 13 – Cymunedau Gwledig Amcan 15 – Hygyrchedd</p> <p>Polisiau Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S1 – Twf Strategol Cynaliadwy a Chadarn S2 – Dosbarthiad Gofodol o Ddatblygiadau – Hierarchaeth Aneddiadau S3 – Creu Lleoedd Cynaliadwy a Dylunio Safon Uchel S11 – Hierarchaeth Canolfannau Manwerthu a Masnachol</p>	<p>Yn unol gyda'r PPW11, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn amlinellu'r hierarchaeth manwerthu ar gyfer Sir Fynwy gyda'r nod o gynnal a gwella prif drefi'r Sir fel canolfannau hyfyw a deniadol ac er mwyn cynnal cyfleusterau siopa lleol. Mae'r hierarchaeth yn helpu gweithredu dull dilyniannol a'r egwyddor gyntaf ar gyfer canol trefi drwy gyfeirio datblygiadau manwerthu a masnachol i'r safleoedd mwyaf priodol yn yr hierarchaeth.</p>
<p><b>Polisi 7 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy</b></p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy a gyflenwir drwy sicrhau y caiff cyllid ar gyfer y cartrefi hyn ei ddyrannu a'i ddefnyddio'n effeithiol. Drwy eu Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol, dylai awdurdodau cynllunio ddatblygu fframweithiau polisi cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cyflenwi tai fforddiadwy, gan gynnwys gosod targedau ar gyfer cynlluniau datblygu yn seiliedig ar amcangyfrifon rhanbarthol o'r angen am dai ac asesiadau lleol. Mewn ymateb i anghenion lleol a rhanbarthol, dylai awdurdodau cynllunio nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau a arweinir gan dai fforddiadwy ac ystyried pob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 1 – Twf Economaidd / Cyflogaeth Amcan 6 – Tir Amcan 9 – Demograffi Amcan 10 – Tai Amcan 12 – Cymunedau Amcan 13 – Cymunedau Gwledig</p> <p>Polisiau Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S1 – Twf Strategol Cynaliadwy a Chadarn S2 – Dosbarthiad Gofodol o Ddatblygiadau – Hierarchaeth Aneddiadau S6 – Delivery of Homes S7 – Tai Fforddiadwy</p>	<p>Mae mynd i'r afael gyda materion fforddiadwyedd ym marchnad dai Sir Fynwy wedi ei nodi fel her allweddol y mae angen ei hystyried drwy'r broses CDLID. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn sefydlu fframwaith polisi sydd yn ceisio mynd i'r afael gyda hyn drwy osod targed o greu 2,450 o dai fforddiadwy, gan ddechrau ar y gwaith o osod canrannau trothwy tai fforddiadwy i'w cynnwys yn y Cynllun Wedi'i Adneuo a'n ceisio dyrannu safleoedd yn yr ardaloedd marchnad tai lle y mae angen rhannu tai, gyda hanner ohonynt yn dai fforddiadwy a'r hanner arall yn dai sy'n rhan o'r farchnad breifat. Byddwn yn ystyried cyfleoedd ychwanegol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy fel polisi tai cyfun, a hynny fel rhan o'r Cynllun Wedi'i Adneuo.</p>

	S8 – Safleoedd Datblygu Strategol	Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol ddiweddaraf (Rhagfyr 2020) yn darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer materion tai fforddiadwy o fewn y CDLID.
<p><b>Polisi 8 – Llifogydd</b> Cefnogi'r systemau rheoli perygl llifogydd sy'n galluogi ac yn cynnal twf ac adfywio strategol cynaliadwy mewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd a datblygwyr er mwyn cynllunio a buddsoddi mewn seilwaith newydd a gwell, gan hyrwyddo atebion yn seiliedig ar natur fel blaenoriaeth. Rhaid achub ar gyfleoedd i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth fuddsoddi mewn seilwaith rheoli perygl llifogydd. Rhaid sicrhau na fydd prosiectau yn cael effaith andwyol ar safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol a ddynodwyd yn statudol at ddibenion cadwraeth natur na'r nodweddion y'u dynodwyd ar eu cyfer.</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 3 – Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth a Thirwedd Amcanion 4 – Risg Llifogydd Amcanion 6 – Tir Amcanion 7 – Adnoddau Naturiol Amcanion 17 – Newid Hinsawdd</p> <p>Polisiau Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S4 – Newid Hinsawdd S18 – Seilwaith Gwyrdd, Tirwedd a Chadwraeth Natur</p>	Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn gwneud ymrwymiad polisi er mwyn osgoi lleoli datblygiadau mewn ardaloedd o lifogydd, neu os yn briodol, yn lleihau'r risg o lifogydd gan gynnwys ymgorffori mesurau fel System Draenio Trefol Cynaliadwy a dylunio diogelu yn erbyn llifogydd. Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn cydnabod y rôl sylweddol y mae Seilwaith Gwyrdd yn chwarae o ran atal llifogydd a rheoli adnoddau dŵr a'n rheoli a'n gwella bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau.
<p><b>Polisi 9 – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd</b> Er mwyn gwella bioamrywiaeth, sicrhau bod ecosystemau yn gadarn a darparu seilwaith gwyrdd, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• nodi ardaloedd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol am eu bod yn bwysig wrth addasu i newid yn yr hinsawdd, diogelu, adfer neu greu cynefinoedd, diogelu rhywogaethau, neu ddarparu gwasanaethau ecosystemau allweddol, er mwyn sicrhau na fydd gwaith datblygu yn y dyfodol yn amharu'n ormodol arnynt.</li> <li>• nodi cyfleoedd lle y gellid manteisio i'r eithaf ar seilwaith gwyrdd presennol a phosibl fel rhan o greu lleoedd, lle</li> </ul>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 3 – Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth a Thirwedd Amcan 4 – Risg Llifogydd Amcan 6 – Tir Amcan 7 – Adnoddau Naturiol Amcan 8 – Iechyd a Llesiant Amcan 17 – Newid Hinsawdd</p> <p>Polisiau Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S4 – Newid Hinsawdd S18 – Seilwaith Gwyrdd, Tirwedd a Chadwraeth Natur</p>	<p>Mae Seilwaith Gwyrdd sylweddol gan Sir Fynwy, tirwedd, bioamrywiaeth ac adnoddau cadwraeth natur. Mae'r angen i ddiogelu a gwella'r adnoddau yma yn ffocws allweddol ar gyfer y CDLID, yn cydnabod rôl aml-swyddogaeth sydd ganddo o ran teithio llesol, creu lleoedd, cadernid yr ecosystem, lliniaru newid hinsawdd a gwella iechyd a lles yn gyffredinol.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi paratoi Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Sir Fynwy (2019), sydd hefyd wedi llywio sylfaen dystiolaeth Datganiad Ardal De Ddwyrain Cymru. Mae hyn yn cynnig fframwaith gyffredinol ar gyfer cymryd camau positif gan yr holl fudd-ddeiliaid sydd yn rhan o ddiogelu, rheoli a gwella y Seilwaith Gwyrdd yn Sir Fynwy ac yn amlinellu'r amcanion a'r</p>

<p>mae angen defnyddio atebion yn seiliedig ar natur fel dull allweddol o sicrhau twf cynaliadwy, cysylltedd ecolegol, cydraddoldeb cymdeithasol a llesiant. Dylai awdurdodau cynllunio gynnwys yr ardaloedd a/neu'r cyfleoedd hyn o fewn strategaethau a pholisiau eu cynlluniau datblygu er mwyn hyrwyddo a diogelu'r swyddogaethau a gyflawnir ganddynt a'r cyfleoedd a gynigir ganddynt. Ym mhob achos, dylai camau gweithredu tuag at gynnal a gwella bioamrywiaeth (er mwyn sicrhau mantais net), gwneud ecosystemau yn gadarn ac asedau seilwaith gwyrdd gael eu dangos fel rhan o gynigion datblygu drwy ddulliau arloesol yn seiliedig ar natur o gynllunio safleoedd a dylunio'r amgylchedd adeiledig</p>		<p>blaenoriaethau strategol ar gyfer llywio'r broses o gynllunio a rheoli Seilwaith Gwyrdd yn Sir Fynwy.</p>
<p><b>Polisi 10 – Cysylltedd Rhyngwladol</b> Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r Pyrth Strategol canlynol i hwyluso cysylltedd rhyngwladol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Maes Awyr Caerdydd</li> <li>• Porthladd Caergybi</li> <li>• Dyfrffordd y Ddau Gleddau, gan gynnwys Porthladdoedd Aberdaugleddau a Doc Penfro</li> <li>• Porthladd Abergwaun</li> </ul> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r gweithredwyr, y buddsoddwyr a'r awdurdodau lleol er mwyn cefnogi Pyrth Strategol a chynnal eu rolau cysylltedd rhyngwladol. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gefnogi'r Pyrth Strategol drwy sicrhau eu bod mor fuddiol â phosibl i'w priod ranbarthau ac i Gymru. Dylid rheoli datblygiadau newydd o amgylch y Pyrth Strategol yn ofalus er mwyn sicrhau na chyfyngir ar eu gweithrediad na'i beryglu.</p>		<p>Nid oes Pyrth Strategol er mwyn hwyluso cysylltiadau rhyngwladol wedi eu nodi yn ffiniau Sir Fynwy. Ystyrir felly fod y CDLID yn cael effaith niwtral ar gyflawni polisi 'Dyfodol Cymru'.</p>

<p><b>Polisi 11 – Cysylltedd Cenedlaethol</b></p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o wella cysylltedd cenedlaethol ac yn buddsoddi ynddo. Ein blaenoriaethau yw annog teithiau pellach ar drafnidiaeth gyhoeddus, a hefyd ei gwneud yn bosibl i deithio'n bellach mewn cerbydau trydan. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol, gweithredwyr a phartneriaid er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r mesurau canlynol i wella cysylltedd cenedlaethol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhwydwaith Rheilffyrdd – Trawsnewid y rhwydwaith rheilffyrdd a gwella ansawdd gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr.</li> <li>• Rhwydwaith Bysiau – Buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu'r rhwydwaith bysiau cenedlaethol, wedi'i integreiddio'n llwyr â rhwydweithiau bysiau rhanbarthol a lleol, er mwyn cynyddu nifer y teithiau ar fysiau a gwella mynediad ar fws i ystod ehangach o gyrchfannau.</li> <li>• Rhwydwaith Ffyrdd Strategol – Buddsoddi mewn gwelliannau ffyrdd er mwyn lleihau amseroedd teithio, cyflwyno rhwydwaith ffyrdd mwy diogel a chadarn, a gwella ansawdd aer a sŵn. Creu rhwydwaith o fannau gwefru cyflym fel modd o deithio ymhellach mewn cerbydau trydan ledled Cymru.</li> <li>• Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol – Adnewyddu'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol er mwyn creu rhwydwaith o lwybrau di-draffig sy'n cysylltu dinasoedd, trefi a chefn gwlad ledled Cymru.</li> </ul> <p>Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi datblygiadau sy'n gysylltiedig â gwelliannau i gysylltedd cenedlaethol a, lle y bo'n briodol, achub ar y cyfleoedd sy'n deillio ohonynt. Rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau, lle y bo'n briodol, fod datblygiad newydd yn cyfrannu at wella a datblygu'r</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 1 – Twf Economaidd / Cyflogaeth Amcan 15 – Hygyrchedd Amcan 17 – Newid Hinsawdd</p> <p>Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S4 – Newid Hinsawdd S5 – Darparu Seilwaith S10 – Trafnidiaeth Gynaliadwy</p>	<p>Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio hyrwyddo ffurfiau cynaliadwy o drafnidiaeth, lleihau'r angen i deithio, cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer cerdded a seiclo a gwella darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus. Mae'r strategaeth ofodol o'r CDLID yn ceisio ffocysu datblygiadau ar y lleoliadau sydd yn rhoi'r cyfleoedd gorau i sicrhau datblygiadau cynaliadwy, sydd yn cynnig ystod o ddulliau trafndiaeth ac yn cynnig cyfleoedd i wella a chysylltu gyda'r Rhwydweithiau Teithio Llesol. Mae gwella'r defnydd o gerbydau allyriadau carbon isel drwy ddarparu seilwaith gwefru yn cael ei gydnabod fel cyfrannwr allweddol at wella cysylltiadau cenedlaethol cynaliadwy o ystyried natur wledig Sir Fynwy.</p> <p>Bydd diweddariad o Gynllun Trafnidiaeth Lleol Sir Fynwy gan ystyried y dystiolaeth allweddol ddiweddaraf, Cynllun Argymhellion Terfynol Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru: Tachwedd 2020 a Metro De Cymru, yn cael ei baratoi wrth i ni baratoi'r Cynllun Wedi'i Adneuo. Bydd y CDLID yn cefnogi'r cynlluniau trafndiaeth sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol sydd yn cael ei ddiweddarau, a bydd hefyd yn sicrhau bod yna dir ar gael ar gyfer cynigion trafndiaeth.</p>
---	--	---

<p>Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a chysylltiadau allweddol iddo ac oddi wrtho</p>		
<p><b>Polisi 12 – Cysylltedd Rhanbarthol</b> Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o wella cysylltedd rhanbarthol ac yn buddsoddi ynddo. Mewn ardaloedd trefol, er mwyn cefnogi twf ac adfywio cynaliadwy, ein blaenoriaethau fydd gwella ac integreiddio teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mewn ardaloedd gwledig, ein blaenoriaethau yw cefnogi'r defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn ac arallgyfeirio a chynnal gwasanaethau bysiau lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol, gweithredwyr a phartneriaid er mwyn cyflawni'r mesurau canlynol i wella cysylltedd rhanbarthol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Teithio Llesol – Blaenoriaethu cerdded a beicio wrth deithio'n lleol. Byddwn yn cefnogi'r gwaith o roi'r Ddeddf Teithio Llesol ar waith er mwyn creu rhwydweithiau cynhwysfawr o lwybrau cerdded a beicio lleol sy'n cysylltu lleoedd y mae angen i bobl eu cyrraedd at ddibenion pob dydd.</li> <li>• Bysiau – Gwella'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau bysiau lleol. Byddwn yn buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu rhwydweithiau bysiau rhanbarthol a lleol integredig er mwyn cynyddu nifer y teithiau ar fysiau a gwella mynediad ar fws i ystod ehangach o gyrchfannau.</li> <li>• Metros – Datblygu Metro'r De-ddwyrain, Metro'r De-orllewin a Metro'r Gogledd. Byddwn yn creu systemau trafndiaeth integredig newydd sy'n darparu gwasanaethau unedig amlach a chyflymach gan ddefnyddio trenau, bysiau a rheilffyrdd ysgafn.</li> </ul>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 14 – Seilwaith Amcan 15 – Hygyrchedd Amcan 17 – Newid Hinsawdd</p> <p>Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S4 – Newid Hinsawdd S5 – Darparu Seilwaith S10 – Trafnidiaeth Gynaliadwy</p>	<p>Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio hyrwyddo ffurfiau cynaliadwy o drafnidiaeth, lleihau'r angen i deithio, cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer cerdded a seiclo a gwella darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus. Mae'r strategaeth ofodol o'r CDLLD yn ceisio ffocysu datblygiadau ar y lleoliadau sydd yn rhoi'r cyfleoedd gorau i sicrhau datblygiadau cynaliadwy, sydd yn cynnig ystod o ddulliau trafndiaeth ac yn cynnig cyfleoedd i wella a chysylltu gyda'r Rhwydweithiau Teithio Llesol. Mae gwella'r defnydd o gerbydau allyriadau carbon isel drwy ddarparu seilwaith gwefru yn cael ei gydnabod fel cyfrannwr allweddol at wella cysylltiadau cenedlaethol cynaliadwy o ystyried natur wledig Sir Fynwy.</p> <p>Bydd diweddariad o Gynllun Trafnidiaeth Lleol Sir Fynwy gan ystyried y dystiolaeth allweddol ddiweddaraf, Cynllun Argymhellion Terfynol Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru: Tachwedd 2020 a Metro De Cymru, yn cael ei baratoi wrth i ni baratoi'r Cynllun Wedi'i Adneuo. Bydd y CDLID yn cefnogi'r cynlluniau trafndiaeth sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol sydd yn cael ei ddiweddarau, a bydd hefyd yn diogelu bod yna dir ar gael ar gyfer cynigion trafndiaeth.</p>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cerbydau Allyriadau Isel Iawn – Cefnogi'r gwaith o gyflwyno seilwaith llenwi addas er mwyn hwyluso'r penderfyniad i fabwysiadu cerbydau allyriadau isel iawn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.</li> </ul> <p>Rhaid i awdurdodau cynllunio gynllunio ar gyfer twf ac adfywiad yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol er mwyn achub ar gyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus, gan gynnwys nodi cyfleoedd am ddatblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg a di-gar o amgylch gorsafoedd metro.</p> <p>Rhaid i deithio llesol fod yn elfen hanfodol ac annatod o bob datblygiad newydd, bach a mawr. Rhaid i awdurdodau cynllunio integreiddio dyraniadau safleoedd, seilwaith a datblygiadau newydd â rhwydweithiau teithio llesol a, lle y bo'n briodol, sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at eu hehangu a'u gwella.</p> <p>Rhaid i awdurdodau cynllunio gymryd camau i ostwng lefelau parcio ceir mewn ardaloedd trefol, gan gynnwys cefnogi datblygiadau di-gar mewn lleoliadau hygyrch a datblygiadau â lleoedd parcio ceir lle gellir eu trosi at ddefnydd arall dros amser. Lle y darperir lleoedd parcio ceir ar gyfer datblygiad di-breswyl, dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau bod gan o leiaf 10% o leoedd parcio ceir fannau gwefru cerbydau trydan.</p>		
<p><b>Polisi 13 – Cefnogi Cyfathrebu Digidol</b></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru o blaid darparu seilwaith a gwasanaethau cyfathrebu digidol ledled Cymru. Rhaid i awdurdodau cynllunio ymgysylltu â darparwyr seilwaith digidol er mwyn nodi anghenion eu hardal yn y dyfodol ac amlinellu polisiâu mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol er mwyn helpu i gyflawni hyn. Dylai datblygiadau newydd gynnwys darparu seilwaith band eang Gigabit o'r cychwyn.</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 14 – Seilwaith</p> <p>Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S5 – Darparu Seilwaith</p>	<p>Yn sgil natur wledig Sir Fynwy, mae'r CDLID yn cydnabod y pwysigrwydd o sicrhau darpariaeth seilwaith ddigidol ddigonol er mwyn gwella cysylltiadau economaidd a chymunedol y Sir a'n diwallu'r anghenion cyfathrebu a'n lleihau'r angen i deithio.</p>

<p><b>Polisi 14 – Cynllunio mewn Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol</b> Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi mwy o signal ffonau symudol a'r manteision economaidd a chymdeithasol cysylltiedig sy'n deillio o hynny. Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol sy'n dangos lleoliadau lle nad oes fawr ddim signal telathrebu symudol, os o gwbl. Rhaid i Lywodraeth Cymru, awdurdodau cynllunio a gweithredwyr telathrebu symudol gydweithio er mwyn cynyddu signal ffonau symudol o fewn Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol.</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 14 – Seilwaith</p> <p>Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S5 – Darparu Seilwaith</p>	<p>Nid yw 'Dyfodol Cymru' yn adnabod y Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol ar hyn o bryd. Ystyri felly fod y CDLID yn cael effaith niwtral ar gyflawni amcanion y polisi. Bydd hyn yn cael ei adolygu unwaith y bydd y Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol yn cael eu cyhoeddi.</p>
<p><b>Polisi 15 – Fforest Genedlaethol</b> Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu fforest genedlaethol drwy nodi safleoedd a dulliau priodol. Caiff camau gweithredu i ddiogelu lleoliadau ar gyfer y fforest genedlaethol eu cefnogi.</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 3 – Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth a Thirwedd Amcan 4 – Risg Llifogydd Amcan 6 – Tir Amcan 7 – Adnoddau Naturiol Amcan 8 – Iechyd a Llesiant Amcan 17 – Newid Hinsawdd</p> <p>Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S4 – Newid Hinsawdd S18 – Seilwaith Gwyrdd, Tirwedd a Chadwraeth Natur</p>	<p>Nid yw 'Dyfodol Cymru' yn nodi lleoliad(au) y Fforest Genedlaethol arfaethedig ar hyn o bryd. Ystyrir felly fod y CDLID yn cael effaith niwtral ar gyflawni amcanion y polisi. Bydd hyn yn cael ei adolygu unwaith y bydd y lleoliad(au) yn cael ei/u a/hadolygu. Mae cyfle i gyflwyno safleoedd arfaethedig ar gyfer y Fforest Genedlaethol drwy'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol.</p>
<p><b>Polisi 16 – Rhwydweithiau Gwresogi</b> Mewn Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol, dylai awdurdodau cynllunio nodi cyfleoedd i sefydlu Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol a chynllunio'n gadarnhaol ar gyfer eu rhoi ar waith. Lle y bo'n ymarferol, dylai datblygiadau defnydd cymysg mawr gynnwys rhwydwaith gwresogi sydd â ffynhonnell ynni</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 17 – Newid Hinsawdd</p> <p>Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S4 – Newid Hinsawdd</p>	<p>Nid oes yna Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer y Rhwydweithiau Gwresogi Ardal sydd wedi eu nodi o fewn ffiniau Sir Fynwy yn 'Dyfodol Cymru'. Mae'r CDLID fodd bynnag yn sefydlu fframwaith polisi strategol er mwyn cefnogi creu ynni adnewyddadwy /carbon isel/sero. Bydd asesiad o'r potensial ar gyfer creu ynni adnewyddadwy, gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru, yn llywio'r Cynllun Wedi'i</p>

<p>adnewyddadwy / carbon isel neu ynni gwres gwastraff. Dylai ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau o'r fath baratoi Uwchgynllun Ynni er mwyn cadarnhau ai rhwydwaith gwresogi yw'r opsiwn mwyaf effeithiol ar gyfer cyflenwi ynni ac, ar gyfer prosiectau dichonadwy, gynllun i'w rhoi ar waith.</p>		<p>Adneuo o ran y meysydd penodol o chwilio am y mathau o ynni adnewyddadwy a charbon isel/sero.</p>
<p><b>Polisi 17 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig</b> Mae Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid egwyddor datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel o bob technoleg ac ar bob graddfa er mwyn diwallu ein hanghenion ynni yn y dyfodol. Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel, rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau roi cryn ystyriaeth i'r angen i gyflawni ymrwymadau rhyngwladol Cymru a'n targed i gynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir mewn modd cynaliadwy erbyn 2030 er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mewn Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effaith debygol ar y dirwedd ac wedi nodi y gellir lleoli datblygiad yno mewn modd derbyniol. Mae rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt mawr (gan gynnwys adbweru) yn yr ardaloedd hyn, yn amodol ar y meini prawf ym mholisi 18. Ni chaniateir datblygiadau ynni gwynt nac ynni'r haul mawr mewn Parciau Cenedlaethol nac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a dylai pob cynnig ddangos na chânt effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd. Dylai cynigion ddisgrifio manteision net y cynllun o ran gwelliannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i gymunedau lleol. Dylai seilwaith grid strategol newydd ar gyfer trawsyrru a</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 17 – Newid Hinsawdd  Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S4 – Newid Hinsawdd</p>	<p>Nid oes yna Ardaloedd Sydd Wedi Eu Hasesu ar gyfer Ynni Gwynt o fewn ffiniau Sir Fynwy yn 'Dyfodol Cymru' Yn gyson gyda Pholisi 17 o 'Dyfodol Cymru', mae'r CDLID yn sefydlu'r fframwaith polisi ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel o'r holl dechnoleg drwy Bolisi Strategol S4 – Newid Hinsawdd. Mae asesiad o'r potensial ar gyfer creu ynni adnewyddadwy. Bydd asesiad o'r potensial ar gyfer creu ynni adnewyddadwy, gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru, yn llywio'r Cynllun Wedi'i Adneuo o ran y meysydd penodol o chwilio am y mathau o ynni adnewyddadwy a charbon isel/sero.</p>



<p>dosbarthu ynni gael ei gynllunio er mwyn lleihau'r effaith weledol ar gymunedau cyfagos. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y Grid Cenedlaethol a Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu, er mwyn symud i rwydwaith grid amlffynhonnell a lleihau'r rhwystrau i weithredu seilwaith grid newydd.</p>		
<p><b>Polisi 18 – Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o Arwyddocâd Cenedlaethol</b></p> <p>Caniateir cynigion ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel (gan gynnwys adbweru) sy'n gymwys fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn amodol ar bolisi 17 a'r meini prawf canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. y tu hwnt i'r Ardaloedd a Asewyd Ymlaen Llaw ar gyfer datblygiadau gwynt a phob man ar gyfer pob technoleg arall, ni chaiff y cynnig effaith andwyol annerbyniol ar y dirwedd gyfagos (yn enwedig ar leoliad Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol);</li> <li>2. nid oes unrhyw effeithiau gweledol andwyol annerbyniol ar gymunedau nac anheddau unigol gerllaw;</li> <li>3. nid oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar safleoedd rhyngwladol (gan gynnwys safleoedd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol a safleoedd Ramsar) na'r nodweddion y'u dynodwyd ar eu cyfer, (oni bai nad oes atebion amgen, a sicrhawyd Rhesymau Gorfodol ar gyfer Budd Cyhoeddus Gor-redol (IROPI) a mesurau cydadferol priodol);</li> <li>4. nid oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar safleoedd cenedlaethol a ddynodwyd yn statudol at ddibenion cadwraeth natur (na'r nodweddion y'u</li> </ol>		<p>Mae Polisi 18 o 'Dyfodol Cymru' yn amlinellu'r meini prawf y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio er mwyn asesu datblygiadau carbon isel sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Ystyrir felly bod y CDLID yn mynd i gael effaith niwtral ar gyflenwi hyn oherwydd nid fframwaith polisi Sir Fynwy sydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn pennu'r cynigion.</p>

<p>dynodwyd ar eu cyfer), cynefinoedd na rhywogaethau gwarchoddedig;</p> <p>5. mae'r cynnig yn cynnwys mesurau gwella bioamrywiaeth er mwyn sicrhau mantais net i fioamrywiaeth;</p> <p>6. nid oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar asedau treftadaeth adeiledig a ddiogelir yn statudol;</p> <p>7. nid oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar ffurf cysgodion yn neidio, sŵn, golau yn adlewyrchu, ansawdd aer nac amharu electromagnetig;</p> <p>8. nid oes unrhyw effeithiau annerbyniol ar weithrediadau cyfleusterau na gweithrediadau amddiffyn (gan gynnwys hediadau a radar) nac Ardal Hyfforddi Tactegol Hedfan yn Isel y Canolbarth (TTA-7T);</p> <p>9. nid oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar y rhwydwaith trafnidiaeth drwy gludo cydrannau na thanwyddau ffynhonnell wrth ei adeiladu a/neu ei weithredu'n barhaus;</p> <p>10. mae'r cynnig yn cynnwys ystyried y deunyddiau sydd eu hangen neu a gynhyrchir gan y datblygiad er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio a'u rheoli mewn ffordd gynaliadwy;</p> <p>11. mae darpariaethau derbyniol yn ymwneud â datgomisiynu'r datblygiad ar ddiwedd ei oes, gan gynnwys dileu seilwaith ac adfer y safle yn effeithiol. Dylid hefyd ystyried effeithiau cronol cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n bodoli eisoes a rhai sydd wedi cael caniatâd.</p>		
<p><b>Polisi 19 – Polisiâu Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol</b></p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 1 – Twf Economaidd / Cyflogaeth</p>	

<p>Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol gynnwys creu lleoedd fel prif egwyddor a dylent sefydlu'r canlynol ar gyfer y rhanbarth (a lle y bo angen Gynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol):</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. strategaeth ofodol;</li> <li>2. hierarchaeth aneddiadau;</li> <li>3. y ddarpariaeth a'r gofyniad tai;</li> <li>4. anghenion sipsiwn a theithwyr;</li> <li>5. darpariaeth cyflogaeth;</li> <li>6. ardaloedd gofodol ar gyfer tai strategol, twf cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy;</li> <li>7. nodi lleiniau glas, coridorau gwyrdd a thirweddau sydd o bwys cenedlaethol lle y bo angen;</li> <li>8. lleoliad gwasanaethau allweddol, trafndiaeth a seilwaith cysylltedd;</li> <li>9. fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ac asedau diwylliannol yn gynaliadwy;</li> <li>10. rhwydweithiau ecolegol a chyfleoedd i ddiogelu neu wella cysylltedd y rhwydweithiau hyn a darparu seilwaith gwyrdd;</li> <li>11. fframwaith cydgysylltiedig ar gyfer echdynnu mwynau a'r economi gylchol, gan gynnwys trin a gwaredu gwastraff. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i fabwysiadu Cynlluniau Datblygu Strategol yn rhanbarthau'r Gogledd, y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain</li> </ol>	<p>Amcan 5 – Mwynderau a Gwastraff Amcan 7 – Adnoddau Naturiol Amcan 10 – Tai Amcan 14 – Seilwaith</p> <p>Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S1 – Twf Strategol Cynaliadwy a Chadarn S2 – Dosbarthiad Gofodol o Ddatblygiadau – Hierarchaeth Aneddiadau S3 – Darparu Seilwaith S6 – Delivery of Homes S9 – Sipsiwn a Theithwyr S10 – Trafndiaeth Gynaliadwy S13 – Darparu Safleoedd Cyflogaeth S16 – Rheoli Gwastraff Gynaliadwy S17 - Mwynderau</p>	<p>Mae paratoi'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn cynnwys dulliau rhanbarthol a chydlynus tuag at gasglu tystiolaeth, gan gynnwys modelu amcanestyniad o boblogaeth, astudiaeth cyflogaeth rhanbarthol ac Asesiad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd. Mae hyn wedi cynnig dull cyson a chymharol tuag at fethodolegau a sylfaen i ystyried y dystiolaeth ac unrhyw oblygiadau ar lefel fwy rhanbarthol ynghyd ag ar lefel leol. Bydd y dull hwn yn parhau drwy'r broses o baratoi'r Cynllun Wedi'i Adneuo, gyda nifer o ddarnau tystiolaeth sydd wedi eu comisiynu ar y cyd eisoes ar waith gan gynnwys Model Hyfywedd Datblygu ac Asesiad Ynni Adnewyddadwy, gydag eraill i ddechrau cyn hir gan gynnwys Asesiad o Ganlyniadau Strategol Llifogydd Adolygiad o'r Llain Werdd a'r Lletem Las ac anghenion sipsiwn a theithwyr. Mae dulliau gwaith hirdymor sydd yn gysylltiedig gyda meysydd fel gwastraff a mwynderau yn parhau i gael eu hadlewyrchu yn y Strategaeth a Ffefrir.</p> <p>Mae'r dull rhanbarthol yma i nifer o'r meysydd polisi sydd yn y CDLID yn mynd i gynnig sylfaen dystiolaeth sylweddol ar gyfer paratoi'r CDS y De Ddwyrain.</p>
<p><b>Polisi 33 – Ardal Dwf Genedlaethol – Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd</b> Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd fydd y prif ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad yn rhanbarth y De-ddwyrain.</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 1 – Twf Economaidd / Cyflogaeth Amcan 6 – Tir Amcan 9 – Demograffi</p>	<p>Nid yw Sir Fynwy yn cael ei nodi fel ardal dwf yn 'Dyfodol Cymru'; fodd bynnag, mae'r polisi yn cefnogi datblygiadau yn y rhanbarth ehangach sydd yn mynd i'r afael gyda'r cyfleoedd</p>

<p>Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydnabod yr Ardal Dwf Genedlaethol fel y ffocws ar gyfer cynnydd tai a thwf economaidd strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; seilwaith trafndiaeth a seilwaith digidol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrff rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn y rhanbarth a rhanbarthau cyfagos Lloegr i hyrwyddo a gwella rôl strategol Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd a sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi allweddol yn cefnogi lleoedd yn yr Ardal Dwf Genedlaethol a'r rhanbarth ehangach. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi statws Caerdydd fel dinas gystadleuol yn rhyngwladol a dinas graidd ar lwyfan y DU. Bydd Caerdydd yn cadw ac yn ymestyn ei rôl fel y brif ganolfan genedlaethol ar gyfer diwylliant, chwaraeon, hamdden, y cyfryngau, economi'r nos a chyllid. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rôl strategol gynyddol ar gyfer Casnewydd fel ffocws twf a buddsoddiad cynaliadwy a hirdymor. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau yn y rhanbarth ac yn Lloegr i hyrwyddo rôl strategol Casnewydd a sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi allweddol yng Nghymru a Lloegr yn cefnogi Casnewydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithgarwch adfywio a buddsoddi cydgysylltiedig yn ardal y Cymoedd er mwyn gwella llesiant, cynyddu ffyniant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrff rhanbarthol, awdurdodau lleol, busnesau, y trydydd sector, asiantaethau a rhanddeiliaid i gefnogi buddsoddiad, gan gynnwys yn y sector gweithgynhyrchu, a sicrhau bod dull gweithredu rhanbarthol yn cael ei fabwysiadu er mwyn mynd i'r afael â materion economaidd-gymdeithasol yn y Cymoedd.</p>	<p>Amcan 10 – Tai Amcan 12 – Cymunedau Amcan 13 – Cymunedau Gwledig</p> <p>Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S1 – Twf Strategol Cynaliadwy a Chadarn S2 – Dosbarthiad Gofodol o Ddatblygiadau – Hierarchaeth Aneddiadau S6 – Delivery of Homes S7 – Tai Fforddiadwy S8 – Safleoedd Datblygu Strategol S10 – Trafnidiaeth Gynaliadwy S13 – Darparu Safleoedd Cyflogaeth</p>	<p>a'r heriau sydd yn deillio o leoliad daearyddol y rhanbarth a'i swyddogaethau fel Prifddinas-Ranbarth.</p> <p>Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio adeiladu ar leoliad strategol allweddol Sir Fynwy sydd yn elwa o gysylltiadau da gyda Chaerdydd, Bryste a Chanolbarth Lloegr. Mae'r CDLID yn cydnabod bod y Sir - yn sgil ei lleoliad fel porth i mewn i Gymru a'r cyfuniad o gyfleoedd sydd yn deillio o'i gysylltiad ehangach gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, Metro De Ddwyrain Cymru a lleoliad strategol y Sir rhwng y dinasoedd Gorllewinol Mawr, sef Caerdydd, Casnewydd a Bryste - yn meddu ar y potensial i gyfrannu at amcanion y rhanbarth ehangach.</p>
--	--	---

<p>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu yn y rhanbarth ehangach sy'n ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau sy'n deillio o leoliad daearyddol y rhanbarth a'i swyddogaethau fel Prifddinas-Ranbarth.</p>		
<p><b>Polisi 34 – Lleiniau Glas yn y De-Ddwyrain</b> Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las i'r gogledd o Gaerdydd, Casnewydd a rhan ddwyreiniol y rhanbarth er mwyn rheoli ffurf a thwf trefol. Rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol ystyried y gydberthynas rhwng lleiniau glas a'r llain las yng Ngorllewin Lloegr. Ni ddylai Cynlluniau Datblygu Lleol na phenderfyniadau rheoli datblygu caniatáu datblygiadau mawr yn yr ardaloedd a ddangosir i'w hystyried ar gyfer lleiniau glas, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol iawn, nes bod yr angen am leiniau glas a'u ffiniau wedi'i bennu gan Gynllun Datblygu Strategol mabwysiedig.</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 3 – Seilwaith Gwyrdd, Bioamrywiaeth a Thirwedd Amcan 6 – Tir</p> <p>Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S2 – Dosbarthiad Gofodol o Ddatblygiadau – Hierarchaeth Aneddiadau S8 – Safleoedd Datblygu Strategol S10 – Trafnidiaeth Gynaliadwy S18 – Seilwaith Gwyrdd, Tirwedd a Chadwraeth Natur</p>	<p>Mae'r Diagram Strategol Rhanbarth De Ddwyrain Cymru (tudalen 163 o 'Cymru'r Dyfodol') yn darparu cynllun dangosol o'r ardal dan ystyriaeth gyda ffiniau manwl i'w diffinio drwy baratoi'r CDS. Cyn y CDS, dylid trin yr ardal sydd yn cael ei hystyried yn 'Cymru'r Dyfodol' fel Llain Werdd ddynodedig. Wrth asesu'r strategaeth ofodol ar gyfer dosbarthu twf o fewn y Sir, dylid ystyried paragraff 3.72 o PPW11 sydd yn datgan "Wrth ystyried dynodi Llain Las, dylid sicrhau bod digon o dir datblygu mewn lleoliad addas mewn perthynas â'r ffiniau trefol presennol ar gael, gan gofio'r angen am dir datblygu yn y tymor hwy, effeithiau pwysau datblygu mewn ardaloedd y tu hwnt i'r Llain Las a'r angen i leihau'r galw i deithio. Efallai y bydd angen diogelu tir, a rhaid i ffiniau Lleiniau Glas arfaethedig fod wedi'u diffinio'n ofalus i gyflawni hyn". Yn y cyd-destun hwn, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cael ei hystyried fel modd o hwyluso'r broses o adnabod Llain Werdd yn ne Sir Fynwy gyda'r aneddiadau cynradd wedi eu lleoli y tu hwnt i hyn, yn gyson gyda'r cynllun dangosol ac yn cwrdd â gofynion Polisi 34 ond yn caniatáu lefel briodol o dwf yn Sir Fynwy er mwyn mynd i'r afael gyda'r heriau a'r materion lleol. Mae pryderon sylweddol dal gan y Cyngor fodd bynnag ynglŷn â'r Llain Werdd sydd wedi ei ddynodi fel rhywbeth parhaol gan y byddai hynny'n arwain at oblygiadau polisi hirdymor ar gyfer twf a ffyniant yn Sir Fynwy yn y dyfodol.</p>

<p><b>Polisi 35 – Parc Rhanbarthol y Cymoedd</b> Mae Llywodraeth Cymru o blaid sefydlu Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ymgorffori ei egwyddorion yn eu fframweithiau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, y trydydd sector a phartneriaid allweddol i gefnogi Parc Rhanbarthol y Cymoedd a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer datblygiadau newydd.</p>		<p>Polisi 35 - Nid yw'r Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn ymwneud gyda Sir Fynwy. Ystyrir felly fod y Strategaeth a Ffefrir yn mynd i gael effaith niwtral o ran cyflawni ei amcanion.</p>
<p><b>Polisi 36 – Metro'r De-ddwyrain</b> Mae Llywodraeth Cymru o blaid datblygu Metro'r De-ddwyrain a bydd yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i'w gyflawni ac achub ar gyfleoedd cysylltiedig. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gefnogi Metro'r De-ddwyrain. Dylai awdurdodau cynllunio gynllunio ar gyfer twf ac adfywio er mwyn achub ar y cyfleoedd sy'n deillio o well cysylltedd rhanbarthol, gan gynnwys nodi cyfleoedd am ddatblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg a di-gar o amgylch gorsafoddd metro newydd a gwell.</p>	<p>Amcanion y CDLID: Amcan 14 – Seilwaith Amcan 15 – Hygyrchedd Amcan 17 – Newid Hinsawdd  Polisiâu Strategol y Strategaeth a Ffefrir: S4 – Newid Hinsawdd S5 – Darparu Seilwaith S10 – Trafnidiaeth Gynaliadwy</p>	<p>Bydd diweddariad o Gynllun Trafnidiaeth Lleol Sir Fynwy gan ystyried y dystiolaeth allweddol ddiweddaraf, Cynllun Argymhellion Terfynol Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru: Tachwedd 2020 a Metro De Cymru, yn cael ei baratoi wrth i ni baratoi'r Cynllun Wedi'i Adneuo. Bydd y CDLID yn cefnogi'r cynlluniau trafndiaeth sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol sydd yn cael ei ddiweddarau, a bydd hefyd yn diogelu bod yna dir ar gael ar gyfer cynigion trafndiaeth.</p>

\*Tabl yn eithrio Polisiâu FW 20 – 32 gan fod y rhain yn ymwneud gyda rhanbarthau'r gogledd ddwyrain a'r de ddwyrain

### Casgliadau

Wrth i'r asesiad uchod ei arddangos, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn gyson gydag amcanion 'Dyfodol Cymru' ac yn sefydlu polisi fframwaith sydd yn cydymffurfio gyda 'Dyfodol Cymru' ac yn gwneud cyfraniad positif i'w amcanion polisi. Ar lefel leol a rhanbarthol, mae'r CDLID mewn lle da i wireddu gweledigaeth a chyflawni amcanion Dyfodol Cymru drwy sicrhau ei fod yn cynnwys polisiâu sydd yn gyson ag egwyddorion creu lleoedd a datblygiadau cynaliadwy.

Mae 'Dyfodol Cymru' yn cynnwys darpariaethau polisi ar gyfer materion ar lefel genedlaethol fel Cysylltiadau Rhyngwladol a Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel sydd o Bwysigrwydd Cenedlaethol. Mae'r rhain yn cael eu dangos mewn melyn uchod, er mwyn dynodi fod y Strategaeth a Ffefrir yn gwneud cyfraniad niwtral i'r meysydd yma. Yn debyg i hyn, rydym yn dynodi effaith niwtral ar gyfer meysydd polisi lle nad yw lleoliadau wedi eu cyhoeddi eto fel y Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol a'r Fforest Genedlaethol a hefyd ar gyfer Polisi 35 sydd yn ymwneud gyda Pharc Rhanbarthol y Cymoedd na sydd yn

uniongyrchol berthnasol i Sir Fynwy. Tra nad yw'r CDLID yn cynnwys darpariaethau uniongyrchol ar gyfer y materion hyn, nid ydynt yn cael eu hystyried fel rhywbeth a fydd yn cael effaith sylweddol ar allu'r CDLID i fod yn gyson gyda gweledigaeth ac amcanion cyffredinol 'Dyfodol Cymru'.